# Lefel 4 Ymarferwr Gwasanaethau Cymdeithasol

Tachwedd 2023 Fersiwn 1.2

# Llawlyfr y Cymhwyster

| Fersiwn a Dyddiad | Newid manylion | Adran |
|---|---|---|
| 1.1 Gorffennaf 2021 | Ymrestru ac ardystio adran wedi'i diweddaru | Gofynion canolfannau |
| 1.2 Tachwedd 2023 | Addasiad geiriad i ddarllen 'ymgymeriad neu gyfrannu ato' | Unit 444, 3.13 and 3.19 |

# Cipolwg ar y cymhwyster

| | |
|---|---|
| **Maes pwnc** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| **Rhif City & Guilds** | 8040 |
| **Grŵp oedran cymeradwy** | 18+ |
| **Gofynion cofrestru** | Dim |
| **Asesu** | Cyfuniad o asesu mewnol ac asesu allanol |
| **Cymeradwyaethau** | Mae angen cymeradwyo canolfannau a chymwysterau |
| **Deunyddiau cefnogi** | Llawlyfr y Cymhwyster<br>Pecyn asesu |
| **Ymrestru ac ardystio** | Ewch i wefan y Consortiwm am fanylion |

| Teitl a lefel | Rhif cyfeirnod | Rhif achredu |
|---|---|---|
| Lefel 4 Ymarferwr Gwasanaethau Cymdeithasol | 8040-13 | C00/4016/9 |

# Cynnwys


Lefel 4 Ymarferwr Gwasanaethau Cymdeithasol 1

**Cipolwg ar y cymhwyster 2**

**Cynnwys 4**

**1 Cyflwyniad 6**

Nodau ac amcanion y pwnc 7
Strwythur 8
Oriau Dysgu Dan Arweiniad (ODA) a Chyfanswm Amser Cymhwyso (CAC) 9

**2 Gofynion canolfannau 10**

Cymeradwyo'r cymhwyster 10
Cofrestru ac ardystio **Error! Bookmark not defined.**
Staff canolfannau 11
Gofynion cofrestru ymgeiswyr 12
Cyfyngiadau oedran 12

**3 Cyflwyno'r cymhwyster 13**

Asesu cychwynnol a sefydlu 13
Deunyddiau cefnogi 13
Swyddogion Cyswllt allanol/penodeion 13
Cymedroli trefniadau asesu mewnol 15
Apêl fewnol 15
Ffactorau sy'n effeithio ar ymgeiswyr unigol 15
Camymddwyn 16
Trefniadau mynediad ac ystyriaeth arbennig 16

**4 Asesu 18**

Crynodeb o’r dulliau asesu 18
Efelychu 18
Cyfyngiadau amser 18
Cydnabod dysgu blaenorol 18
Cyfleoedd ailsefyll 18

**5 Unedau 20**

Argaeledd unedau 20
Canllawiau ar gyflwyno cynnwys yr unedau 21

**Uned 440 Deall deddfwriaeth yng nghyd-destun rôl Ymarferwr Gwasanaethau Cymdeithasol 23**

Canllawiau cyflwyno 27
Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig 34
Adnoddau 35

**Uned 441 Ymarfer proffesiynol 36**

| | | |
|---|---|---|
| | Canllawiau cyflwyno | 40 |
| | SGC cysylltiedig | 41 |
| **Uned 442** | **Deall damcaniaethau a modelau a'u perthynas ag ymarfer person/plentyn-ganolog a dulliau seiliedig ar hawliau** | **42** |
| | Canllawiau cyflwyno | 45 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 46 |
| **Uned 443** | **Deall ffactorau sy'n cyfrannu at yr angen i unigolion a/neu ofalwyr gael gofal a chymorth** | **47** |
| | Canllawiau cyflwyno | 54 |
| | Adnoddau | 59 |
| **Uned 444** | **Cefnogi'r broses asesu a chynllunio gofal a chymorth** | **61** |
| | Canllawiau cyflwyno | 66 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 71 |
| | Adnoddau | 72 |
| **Uned 445** | **Diogelu unigolion** | **73** |
| | Canllawiau cyflwyno | 77 |
| | SGC cysylltiedig | 79 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 79 |
| | Adnoddau | 80 |
| **Atodiad 1** | **Cysylltiad â chymwysterau eraill** | **81** |
| | Cysylltiadau â chymwysterau eraill | 81 |

# 1 Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn dweud wrthych beth mae angen i chi ei wneud er mwyn cyflwyno'r cymwysterau:

| Maes | Disgrifiad |
|---|---|
| Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster? | Nod y cymhwyster hwn yw datblygu'r wybodaeth, dealltwriaeth, ymddygiadau a sgiliau sy'n sail i rôl ymarferwr gwasanaethau cymdeithasol.<br><br>Mae'r cymhwyster hwn wedi cael ei ddatblygu ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol yn y sector, gan gynnwys Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru.<br><br>Mae'r cymhwyster yn seiliedig ar ymarfer ac yn asesu gwybodaeth ac ymarfer dysgwyr. Mae wedi'i gynllunio ar gyfer dysgwyr mewn amgylchedd dysgu seiliedig ar waith, addysg bellach ac addysg uwch. |
| Beth mae'r cymhwyster yn ei gynnwys? | Bydd y cymhwyster hwn yn galluogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni rôl ymarferwr gwasanaethau cymdeithasol |
| Pa gyfleoedd sydd i ddatblygu? | Mae'r cymhwyster hwn yn galluogi dysgwyr i gamu ymlaen mewn gyrfa neu i astudio ymhellach ar lefel uwch, yn amodol ar bolisïau derbyn sefydliadau addysg uwch unigol<br><br>I gael rhagor o wybodaeth am y gofynion ar gyfer gweithio yn y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan gynnwys swyddi penodol, gweler y ‘Fframwaith cymwysterau ar gyfer gofal cymdeithasol a gofal plant rheoledig yng Nghymru’ sydd ar gael ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru. **https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/fframwaith-cymwysterau-ar-gyfer-y-sector-gofal-cymdeithasol-yng-nghymru** |
| Gyda phwy y gwnaethom ddatblygu'r cymhwyster? | Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru a ddatblygodd gynnwys unedau'r cymhwyster hwn ac sy'n berchen arno.<br><br>Datblygwyd y cynnwys ar y cyd â'r Consortiwm, yn ogystal â rhanddeiliaid, cyflogwyr, tiwtoriaid, athrawon ac aseswyr yn y gweithle. |

## Nodau ac amcanion y pwnc

Bydd cymhwyster Lefel 4 Ymarferwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn galluogi dysgwyr i feithrin a dangos eu gwybodaeth, dealltwriaeth, ymddygiad, sgiliau ac ymarfer yng nghyd-destun eu dewis lwybr. Yn benodol, bydd dysgwyr yn gallu dangos eu bod yn

- datblygu a chymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau i ymarfer yn effeithiol fel Ymarferwr Gwasanaethau Cymdeithasol;
- datblygu a chymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau sy'n cynnal atebolrwydd proffesiynol yn eu rôl fel ymarferwr gwasanaethau cymdeithasol
- datblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o ddeddfwriaeth sy'n gymwys i rôl ymarferwr gwasanaethau cymdeithasol;
- datblygu a chymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau sy'n sicrhau bod ymgysylltiad a chyfranogiad unigolion a gofalwyr yn cael eu hyrwyddo;
- datblygu sgiliau fel rhan o dîm sy'n helpu unigolion a gofalwyr i gyflawni eu canlyniadau personol
- Datblygu a chymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau sy'n hyrwyddo diogelu unigolion a gofalwyr
- datblygu'n ddysgwyr effeithiol ac annibynnol, ac yn feddylwyr beirniadol a myfyriol â meddyliau ymholgar yng nghyd-destun rôl ymarferwr gwasanaethau cymdeithasol;
- datblygu hunanymwybyddiaeth er mwyn gwella ymarfer fel ymarferwr gwasanaethau cymdeithasol;
- defnyddio sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel sy'n briodol yn eu swydd.

## Strwythur

Er mwyn ennill cymhwyster **Lefel 4 Ymarferwr Gwasanaethau Cymdeithasol**, rhaid i ddysgwyr gyflawni 120 credyd o leiaf.

Y gofyniad sylfaenol o ran oriau dysgu dan arweiniad ar gyfer y cymhwyster hwn yw 266 awr.

Er mwyn ennill cymhwyster **Lefel 4 Ymarferwr Gwasanaethau Cymdeithasol**, rhaid i ddysgwyr gyflawni:

- 120 credyd o leiaf o'r grŵp Gorfodol.

| Grŵp gorfodol | | | |
|---|---|---|---|
| Rhif yr Uned | Teitl yr Uned | ODA | Credyd |
| 440 | Deall deddfwriaeth yng nghyd-destun rôl Ymarferwr Gwasanaethau Cymdeithasol | 63 | 16 |
| 441 | Ymarfer proffesiynol | 10 | 9 |
| 442 | Deall damcaniaethau a modelau a'u perthynas ag ymarfer person/plentyn-ganolog a dulliau seiliedig ar hawliau | 64 | 20 |
| 443 | Deall ffactorau sy'n cyfrannu at yr angen i unigolion a/neu ofalwyr gael gofal a chymorth | 60 | 17 |
| 444 | Cefnogi'r broses asesu a chynllunio gofal a chymorth | 27 | 40 |
| 445 | Diogelu unigolion | 42 | 18 |

## Oriau Dysgu Dan Arweiniad (ODA) a Chyfanswm Amser Cymhwyso (CAC)

Mae Oriau Dysgu Dan Arweiniad (ODA) yn rhoi syniad i ganolfannau o faint o amser dysgu ac asesu *dan oruchwyliaeth* sydd ei angen i gyflwyno'r uned a gellir defnyddio'r ffigur hwn at ddibenion cynllunio.

Cyfanswm yr Amser Cymhwyso (CAC) yw cyfanswm yr amser, mewn oriau, y disgwylir i ddysgwr ei dreulio er mwyn ennill cymhwyster. Mae'n cynnwys oriau dysgu dan arweiniad (a restrir ar wahân) ac oriau a dreulir yn paratoi, yn astudio ac yn cyflawni rhai gweithgareddau asesu ffurfiannol.

Mae fformiwla sy'n cyfateb i werth y CAC wedi'i rannu â 10 yn cael ei defnyddio i gyfrifo'r credyd.

Nodir y CAC gofynnol ar gyfer y cymhwyster hwn isod.

| Cymhwyster | CAC |
|---|---|
| Lefel 4 Ymarferwr Gwasanaethau Cymdeithasol | 1200 |

# 2 Gofynion canolfannau

## Cymeradwyo'r cymhwyster

Bydd angen cymeradwyo canolfannau a chymhwyster ar gyfer y cymhwyster hwn. Bydd hyn yn cynnwys asesiad desg.

Er mwyn cymeradwyo canolfan, rhaid i sefydliad allu bodloni'r meini prawf cymeradwyo canolfannau. Mae'r dogfennau canlynol yn rhoi manylion sut i gael cymeradwyaeth am y cymhwyster hwn:

- Llawlyfr Gweinyddol (*Cyflwyniad i weithio gyda City & Guilds a CBAC*)
- Ein Gofynion Sicrhau Ansawdd
- Model Sicrhau Ansawdd

Cynghorir darpar ganolfannau i geisio cymeradwyaeth canolfan a chymhwyster, fel sy'n briodol, cyn dechrau cyflwyno'r cymhwyster.

Mae'r Consortiwm yn anelu at gyhoeddi'r penderfyniad ynghylch cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster o fewn 30 diwrnod gwaith ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno, gan arwain at bedwar canlyniad posibl:

- Cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster
- Cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster yn amodol ar gynllun gweithredu
- Ymatal rhag cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster yn amodol ar gynllun gweithredu
- Gwrthod cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster.

Tybir bod y ganolfan a'r cymhwyster wedi cael eu cymeradwyo pan fydd City & Guilds yn anfon cadarnhad ysgrifenedig o'r statws i'r ganolfan, ac nid cyn hynny.

Bydd yn ofynnol i ganolfannau wneud cais am gymeradwyaeth ar gyfer y cymhwyster hwn a bodloni'r gofynion penodol i ganolfannau a amlinellir yn y ddogfen hon mewn perthynas â staff cyflwyno a chymhwysedd aseswyr. Bydd y gofynion hyn yn cael eu harchwilio a'u monitro fel rhan o'r broses cymeradwyo cymwysterau a'r broses o fonitro'r cymhwyster hwn yn barhaus.

## Ymrestru ac ardystio

Mae dysgwyr ar gyfer y cymhwyster hwn yn cael eu cofrestru ar Pro Platform i gefnogi'r elfen asesu allanol. Mae Pro Platform yn galluogi canolfannau i gofrestru ar sail 'mewn ac allan' hy gallwch gofrestru ar unrhyw amser ac mewn unrhyw niferoedd yn ystod y flwyddyn.

**Ni ddylid** cofrestru dysgwyr am y cymhwyster hwn ar Walled Garden.

Mae mynediad i Pro Platform yn cael ei ddarparu i ganolfannau ar ôl derbyn cymeradwyaeth am y cymhwyster hwn. Mae canllawiau ar gael o dan y tab 'Welsh Qualifications' yn yr adran 'Support Materials' i ddarparu cymorth i ganolfannau cwblhau cofrestru, fesul dysgwyr unigol neu fesul grŵp.

Bydd dysgwyr yn cael eu tystysgrifo drwy Walled Garden.

## Staff canolfannau

### Gofynion aseswyr

Bydd yr aseswr mewnol yn gyfrifol am arddel y farn asesu derfynol am y tasgau a asesir yn fewnol o fewn y cymhwyster.

Rhaid i Aseswyr y cymhwyster hwn:

- fod yn alwedigaethol gymwys - mae hyn yn golygu bod yn rhaid i bob aseswr allu bodloni'r holl ofynion yn yr unedau cymhwysedd mae'n eu hasesu – byddai hyn yn cynnwys cymhwysedd o ran y broses asesu a chynllunio gofal gydag unigolion a/neu ofalwyr. Ystyr cymhwysedd galwedigaethol yw eu bod hefyd yn alwedigaethol wybodus
- cynnal eu cymhwysedd galwedigaethol drwy ddysgu a datblygu proffesiynol parhaus y gellir eu dangos yn glir
- meddu ar **gymhwyster gwaith cymdeithasol** a gydnabyddir gan Gofal Cymdeithasol Cymru
- meddu ar un o gymwysterau cyfredol aseswyr e.e.
  - Dyfarniad Lefel 3 mewn Asesu Cymhwysedd yn yr Amgylchedd Gwaith neu;
  - Ddyfarniad Aseswyr A1 neu unedau D32/33

neu gymhwyster addysgwr/asesu ymarfer a gydnabyddir gan Gofal Cymdeithasol Cymru.

Lle y bo gan aseswyr hen gymwysterau aseswr, rhaid iddynt ddangos eu bod yn asesu'n unol â safonau asesu cyfredol neu gymhwyster cyfatebol/amgen addas arall ar gyfer asesu perfformiad yn y gwaith. Rhaid cytuno ar hyn ymlaen llaw gyda Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol y ganolfan.

Mae'r Consortiwm hefyd yn derbyn cymwysterau aseswr eraill a achredir yn genedlaethol. Mae rhestr gynhwysfawr o'r rhain i'w gweld ar dudalen we'r cymhwyster.

Os bydd aseswr yn alwedigaethol gymwys, ond ei fod yn gweithio tuag at gwblhau cymhwyster aseswr, rhaid sicrhau bod trefniant cydlofnodi ar waith gydag aseswr cymwysedig.

### Swyddogion sicrhau ansawdd mewnol

Rhaid i'r rheini sy'n cyflawni'r rôl sicrhau ansawdd mewnol fod yn alwedigaethol wybodus a meddu ar y sgiliau sydd eu hangen i wneud penderfyniadau sicrhau ansawdd.

Mae'r gofynion cymhwyso ar gyfer swyddog sicrhau ansawdd mewnol ar gyfer cymwysterau seiliedig ar gymhwysedd fel a ganlyn. Rhaid bod y swyddog sicrhau ansawdd mewnol:

- yn meddu ar y cymwysterau Sicrhau Ansawdd cyfredol, neu fod yn gweithio tuag at eu hennill, e.e.
  - Lefel 4 Dyfarniad ar gyfer Sicrhau Ansawdd Prosesau ac Arferion Asesu yn Fewnol neu
  - Lefel 4 Tystysgrif mewn Arwain Gwaith Sicrhau Ansawdd Prosesau ac Ymarfer Asesu yn Fewnol neu
  - Feddu ar uned D34 neu Ddyfarniad Gwirwyr V1.

Lle bo swyddog sicrhau ansawdd mewnol yn gweithio tuag at ennill cymhwyster swyddog sicrhau ansawdd mewnol, rhaid bod trefniant cydlofnodi ar waith gan swyddog sicrhau ansawdd mewnol cymwysedig o'r un maes galwedigaethol neu faes galwedigaethol cysylltiedig.

**Y cyd-destun Cymreig**

O ran unigolion nad ydynt wedi ymgymryd â gweithgareddau asesu yng Nghymru o'r blaen, awgrymir y byddai meddu ar ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Gymraeg a diwylliant, polisïau a chyd-destun Cymru yn fuddiol i'w cefnogi wrth ymgymryd â'u rolau.

**Datblygiad proffesiynol parhaus**

Disgwylir i ganolfannau gynorthwyo eu staff i sicrhau bod eu gwybodaeth a'u cymhwysedd yn y maes galwedigaethol ac o ran arfer gorau wrth gyflwyno, mentora, hyfforddi, asesu a sicrhau ansawdd yn gyfredol a'u bod yn ystyried unrhyw ddatblygiadau cenedlaethol neu ddeddfwriaethol.

## Gofynion cofrestru ymgeiswyr

Nid yw City & Guilds yn pennu unrhyw ofynion cofrestru ychwanegol ar gyfer y cymhwyster hwn. Fodd bynnag, rhaid i ganolfannau sicrhau bod gan ymgeiswyr y potensial i ennill y cymwysterau'n llwyddiannus, a'u bod yn cael y cyfle i wneud hynny.

Gellir cofrestru ar gyfer y cymhwyster drwy'r Ardd Furiog (Walled Garden) – gweler gwefan y Consortiwm am ragor o fanylion.

## Cyfyngiadau oedran

Ni all y Consortiwm dderbyn unrhyw gofrestriadau ar gyfer ymgeiswyr eraill dan 18 oed gan nad yw'r cymhwyster hwn wedi'i gymeradwyo ar gyfer rhai dan 18 oed.

# 3 Cyflwyno'r cymhwyster

## Asesu cychwynnol a sefydlu

Dylid cynnal asesiad cychwynnol o bob dysgwr cyn dechrau ei raglen er mwyn nodi:

- p'un a oes gan y dysgwr unrhyw anghenion penodol o ran hyfforddiant,
- unrhyw gefnogaeth ac arweiniad y gall fod ei angen arno wrth weithio tuag at ennill y cymhwyster,
- unrhyw ddysgu a gwblhawyd eisoes sy'n berthnasol i'r cymhwyster,
- y math a'r lefel briodol o gymhwyster.

Argymhellir y dylai canolfannau gynnig rhaglen sefydlu fel bod y dysgwr yn deall gofynion y cymhwyster, ei gyfrifoldebau fel dysgwr, a chyfrifoldebau'r ganolfan yn llawn. Gall y wybodaeth hon gael ei chofnodi ar gontract dysgu.

## Deunyddiau cefnogi

Mae'r adnoddau canlynol ar gael ar gyfer y cymhwyster hwn:

| Disgrifiad | Sut i gael gafael arno |
|---|---|
| Pecyn asesu | Gwefan y Consortiwm |

## Swyddogion Cyswllt allanol/penodeion

Swyddogion Cyswllt/Penodedigion yw'r termau a ddefnyddir gan y Consortiwm i gyfeirio at unigolion a benodir gan City & Guilds neu CBAC i gyflawni rolau penodol ar eu rhan, er enghraifft swyddogion dilysu neu asesu allanol.

Mae gan y Consortiwm feini prawf er mwyn sicrhau bod pob swyddog cyswllt/penodai yn meddu ar y wybodaeth/profiad a sgiliau galwedigaethol cywir i gyflawni'r rôl benodol.

Bydd y Consortiwm yn sicrhau bod pob swyddog cyswllt/penodai sy'n cyflawni rôl sicrhau ansawdd ym meysydd cymeradwyo canolfannau, cymeradwyo cymwysterau a gwneud penderfyniadau asesu wedi'i hyfforddi, yn meddu ar y cymwysterau priodol ac yn gymwys yn alwedigaethol. Rhaid mynychu hyfforddiant a digwyddiadau safoni.

Mae staff y Consortiwm yn rheoli perfformiad pob swyddog cyswllt/penodai. Os nodir pryderon am unigolyn, bydd pob partner consortiwm yn cymryd camau cywirol a all gynnwys camau gwella a monitro agos neu, mewn rhai achosion, gall problemau o ran ansawdd perfformiad arwain at derfynu contract Corff Dyfarnu gyda'r swyddog cyswllt/penodai.

## Aseswyr allanol

Ar gyfer y cymhwyster hwn, caiff nifer o aseswyr allanol eu recriwtio gan City & Guilds a fydd yn cynnal yr asesiad allanol ac yn gwneud y penderfyniad asesu ar gyfer pob ymgeisydd sy'n cwblhau elfen asesu allanol y cymhwyster hwn.

Rhaid i Aseswyr y cymhwyster hwn:

- fod yn alwedigaethol gymwys - mae hyn yn golygu bod yn rhaid i bob aseswr allu bodloni'r holl ofynion yn yr unedau cymhwysedd mae'n eu hasesu – byddai hyn yn cynnwys cymhwysedd o ran y broses asesu a chynllunio gofal gydag unigolion a/neu ofalwyr. Ystyr cymhwysedd galwedigaethol yw eu bod hefyd yn alwedigaethol wybodus
- cynnal eu cymhwysedd galwedigaethol drwy ddysgu a datblygu proffesiynol parhaus y gellir eu dangos yn glir
- meddu ar **gymhwyster gwaith cymdeithasol** a gydnabyddir gan Gofal Cymdeithasol Cymru
- meddu ar un o gymwysterau cyfredol aseswyr e.e.
  - Dyfarniad Lefel 3 mewn Asesu Cymhwysedd yn yr Amgylchedd Gwaith neu;
  - Ddyfarniad Aseswyr A1 neu unedau D32/33

neu gymhwyster addysgwr/asesu ymarfer a gydnabyddir gan Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae'r Consortiwm hefyd yn derbyn cymwysterau aseswr eraill a achredir yn genedlaethol. Mae rhestr gynhwysfawr o'r rhain i'w gweld ar dudalen we'r cymhwyster.

Os bydd aseswr yn alwedigaethol gymwys, ond ei fod yn gweithio tuag at gwblhau cymhwyster aseswr, rhaid sicrhau bod trefniant cydlofnodi ar waith gydag aseswr cymwysedig.

Bydd pob aseswr allanol yn mynd drwy'r hyfforddiant cychwynnol hwn ar y dull asesu. Bydd aseswyr allanol yn destun prosesau safoni a samplu arweiniol. Cynhelir digwyddiadau hyfforddi a safoni blynyddol gyda'r holl aseswyr.

Bydd aseswyr arweiniol yn cefnogi'r broses o recriwtio a hyfforddi aseswyr newydd, gan ddefnyddio enghreifftiau o arfer gorau a darparu cefnogaeth ar gyfer gweithgareddau asesu.

Bydd y Consortiwm yn sicrhau bod digon o swyddogion cyswllt/penodedigion dwyieithog yn cael eu recriwtio er mwyn diwallu anghenion canolfannau a dysgwyr cyfrwng Cymraeg. Bydd y lefel o weithgarwch sicrhau ansawdd yn gyson rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Darperir ar gyfer monitro a safoni yn y ddwy iaith.

Bydd yr holl swyddogion cyswllt/penodedigion yr ystyrir eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgarwch a reoleiddir yn destun gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a byddan nhw'n cael sesiwn friffio ar ddiogelu cyn ymweld â chanolfan.

## Swyddogion sicrhau ansawdd allanol

Rhaid i'r rhai sy'n cyflawni rôl sicrhau ansawdd allanol fod yn alwedigaethol wybodus a meddu ar y sgiliau sydd eu hangen i wneud penderfyniadau sicrhau ansawdd.

Bod y Consortiwm yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddogion Cyswllt/penodedigion feddu ar gymhwyster sicrhau ansawdd allanol, sef naill ai:
D35 - Gwirio'r Broses Asesu'n Allanol (D35) neu V2 - Lefel 4 Tystysgrif mewn Sicrhau Ansawdd y Broses Asesu yn Allanol (V2)
Lefel 4 Sicrhau Ansawdd Prosesau ac Ymarfer Asesu yn Allanol.

Bydd Swyddogion Cyswllt/penodedigion yn gweithio tuag at ennill y cymhwyster sicrhau ansawdd allanol cyfredol (TAQA) neu byddant eisoes wedi'i ennill, neu byddant yn meddu ar hen gymhwyster fel V2/D35.

Lle y bo swyddog sicrhau ansawdd allanol yn gweithio tuag at fodloni'r gofynion ar gyfer swyddogion sicrhau ansawdd allanol, rhaid bod trefniant cydlofnodi ar waith gan swyddog sicrhau ansawdd allanol arall o'r un maes galwedigaethol neu faes galwedigaethol cysylltiedig.

## Cymedroli trefniadau asesu mewnol

Mae prosesau sicrhau ansawdd allanol ar waith i gadarnhau dilysrwydd a dibynadwyedd barnau a phrosesau asesu sy'n cael eu gwneud a'u dilyn gan staff canolfannau, fel sy'n briodol i'r cymhwyster hwn.

Bydd y barnau a'r prosesau asesu mewnol yn destun samplu a gwaith monitro seiliedig ar risg gan swyddogion sicrhau ansawdd allanol er mwyn sicrhau bod barnau asesu canolfannau yn gyson ac yn ddilys. Cyflawnir gweithgareddau sicrhau ansawdd gan swyddogion cyswllt asesu cymwys a hyfforddedig sy'n meddu ar y cymwysterau priodol. Ym mhob achos o samplu'r barnau asesu mewnol a'r prosesau sicrhau ansawdd, rhoddir adborth ysgrifenedig ffurfiol gan City & Guilds.

Bydd y Consortiwm yn ymchwilio i unrhyw achos sylweddol o ddiffyg cydymffurfio neu unrhyw bryder a ddaw'n amlwg wrth fonitro'n allanol. O ganlyniad i'r gweithgarwch hwn, gellir gweithredu a/neu osod sancsiynau priodol. Mewn rhai achosion gall ymchwiliadau arwain at ddadymrestru'r ganolfan neu'r canolfannau dan sylw.

I gael rhagor o wybodaeth am y broses fonitro allanol, gweler y Llawlyfr Gweinyddu (Cyflwyniad i weithio gyda City & Guilds a CBAC) sydd ar gael ar wefan y Consortiwm yn www.dysguiechydagofal.cymru

## Apêl fewnol

Dylai canolfannau fod wedi rhoi proses fewnol ar waith er mwyn i ddysgwyr apelio yn erbyn y ffordd y bydd asesiadau'n cael eu marcio'n fewnol. Rhaid i'r broses fewnol gynnwys rhoi gwybod i ddysgwyr am y canlyniadau mae'r ganolfan wedi'u rhoi ar gyfer elfennau a asesir yn fewnol, gan y bydd angen y rhain arnyn nhw i benderfynu a ydyn nhw am apelio ai peidio.

## Ffactorau sy'n effeithio ar ymgeiswyr unigol

Os bydd gwaith yn cael ei golli, dylid rhoi gwybod i City & Guilds yn syth am ddyddiad colli’r gwaith, sut digwyddodd hyn, a phwy oedd yn gyfrifol am ei golli. Dylai canolfannau ddefnyddio ffurflen y CGC, JCQ/LCW, i roi gwybod i Wasanaethau Cwsmeriaid City & Guilds am yr amgylchiadau.

Mae'n bosibl y bydd angen sylw unigol ar ymgeiswyr sy'n symud o un ganolfan i ganolfan arall yn ystod y cwrs. Mae’r camau gweithredu posibl yn dibynnu ar yr adeg pan mae'r dysgwr yn symud. Dylai canolfannau gysylltu â City & Guilds cyn gynted â phosibl i ofyn am gyngor ar drefniadau priodol mewn achosion unigol.

## Camymddwyn

Gweler nodiadau canllaw City & Guilds, *Managing cases of suspected malpractice in examinations and assessments.* Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn adnabod achosion o gamymddwyn gan ddysgwyr a/neu staff canolfan a rhoi gwybod amdanynt, a'r camau y gall City & Guilds eu cymryd ar ôl hynny. Mae'r ddogfen yn cynnwys enghreifftiau o gamymddwyn gan ddysgwyr a chanolfannau ac yn esbonio cyfrifoldebau staff canolfannau i roi gwybod am gamymddwyn gwirioneddol neu gamymddwyn a amheuir. Gall canolfannau gael gafael ar y ddogfen hon ar wefan City & Guilds.

Nodir enghreifftiau o gamymddwyn gan ddysgwyr isod (sylwer nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr):

- ffugio tystiolaeth asesu neu ddogfennau canlyniadau
- llên-ladrad o unrhyw fath
- cydgynllwynio ag eraill
- copïo gwaith ymgeisydd arall (gan gynnwys defnyddio TGCh er mwyn helpu i wneud hynny), neu ganiatáu i waith gael ei gopïo
- dinistrio gwaith rhywun arall yn fwriadol
- datganiadau dilysrwydd anwir mewn perthynas ag asesiadau
- personadu.

Mae gweithredu fel hyn yn gyfystyr â chamymddwyn, a bydd cosb (e.e. diarddel o’r asesiad) am wneud hyn.

Gweler y ffurflen yn y ddogfen *Managing cases of suspected malpractice in examinations and assessments*.

## Trefniadau mynediad ac ystyriaeth arbennig

Ystyr trefniadau mynediad yw addasiadau sy'n galluogi ymgeiswyr ag anableddau, anghenion addysgol arbennig ac anafiadau dros dro i ymgymryd â'r asesiad a dangos eu sgiliau a'u gwybodaeth heb newid gofynion yr asesiad. Rhaid i'r trefniadau hyn gael eu gwneud cyn i asesiad gael ei gynnal.

Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau ar ddechrau rhaglen ddysgu y bydd ymgeiswyr yn cael cyfle i fodloni gofynion y cymhwyster.

Gweler dogfennau'r CGC sef *Access arrangements and reasonable adjustments* ac *Access arrangements - when and how applications need to be made to City & Guilds* am ragor o wybodaeth. Mae'r rhain ar gael ar wefan City & Guilds:
**http://www.cityandguilds.com/delivering-ourqualifications/centre-development/centre-document-library/policies-andprocedures/**
**access-arrangements-reasonable-adjustments**

## Ystyriaeth arbennig

Gallwn roi ystyriaeth arbennig i ymgeiswyr sydd wedi cael salwch, anaf neu anhwylder dros dro ar adeg yr asesiad. Lle y byddwn yn gwneud hyn, bydd yn digwydd ar ôl yr asesiad.

Dylai'r Swyddog Arholiadau (neu unigolyn sy'n cyflawni rôl gyfatebol) yn y ganolfan gyflwyno ceisiadau am drefniadau mynediad neu ystyriaeth arbennig i City & Guilds. Am ragor o wybodaeth, gweler y fersiwn gyfredol o ddogfen JCQ, *A guide to the special consideration*

*process*. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan City & Guilds:
**http://www.cityandguilds.com/delivering-ourqualifications/ centre-development/centre-document-library/policies-andprocedures/**
**access-arrangements-reasonable-adjustments**

# 4 Asesu

## Crynodeb o’r dulliau asesu

Rhaid i ymgeiswyr gwblhau'r canlynol yn llwyddiannus:

- portffolio o dystiolaeth
- arsylwi ar ymarfer yn uniongyrchol
- cyfrif myfyriol o ymarfer
- cyfrif sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth
- trafodaeth broffesiynol

Mae'r asesiadau wedi cael eu dylunio i'r ymgeiswyr ddangos eu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau o ran y cynnwys gorfodol. Mae'r asesiadau yn cwmpasu ystod o elfennau ysgrifenedig er mwyn adlewyrchu gwybodaeth a dealltwriaeth, yn ogystal ag elfennau ymarfer sy'n cynnwys arsylwi ar ymarfer dysgwyr yn uniongyrchol er mwyn cadarnhau eu cymhwysedd yn y sgiliau ymarferol.

Gellir lawrlwytho pecyn asesu sy'n nodi gofynion penodol yr asesiad o wefan y Consortiwm.

## Efelychu

Creu sefyllfa artiffisial at bwrpasau asesu yw efelychu. Dylai unrhyw efelychu gael ei gyfyngu i gael tystiolaeth lle nad yw'n bosibl ei gynhyrchu'n naturiol drwy weithgareddau gwaith arferol (e.e. oherwydd pryderon yn ymwneud ag iechyd a diogelwch).

Yn y cymhwyster hwn, **ni** chaniateir efelychu.

## Cyfyngiadau amser

Rhaid rhoi'r cyfyngiadau canlynol ar waith wrth asesu'r cymhwyster hwn:

- rhaid cyflawni pob uned a chwblhau ac asesu gofynion cysylltiedig o fewn cyfnod ymrestru'r ymgeisydd.

## Cydnabod dysgu blaenorol

Ystyr cydnabod dysgu blaenorol yw defnyddio profiad neu gymwysterau blaenorol dysgwyr a gyflawnwyd yn barod i gyfrannu tuag at gymhwyster newydd. Ni chaniateir cydnabod dysgu blaenorol ar gyfer y cymhwyster hwn

Dyfernir y cymhwyster yn seiliedig ar gwblhau'r holl dasgau asesu. Rhaid i'r ymgeiswyr lwyddo ym mhob asesiad er mwyn cael gradd gyffredinol ar gyfer y cymhwyster.

## Cyfleoedd ailsefyll

Ni chyfyngir ar nifer y troeon y gellir ailsefyll ar gyfer y cymhwyster hwn.

Gweler y pecyn asesu am ganllawiau ar y cyfleoedd ailsefyll sydd ar gael i ymgeiswyr sy'n cwblhau'r asesiadau, ac am ganllawiau ar y camau i'w cymryd pan fydd ymgeisydd yn methu wrth gwblhau unrhyw elfen o'r asesiad.

## Rolau

Bydd y rolau canlynol yn ymwneud â'r gwaith o asesu'r cymhwyster hwn.

**Aseswr mewnol**[1] – bydd aseswr cymwysedig yn cefnogi'r broses o gynnal yr asesiad. Bydd yr aseswr mewnol yn gyfrifol am arddel barn asesu am y tasgau a asesir yn fewnol.

**Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol** – yn gyfrifol am gadarnhau bod y gwaith o gynllunio, cynnal ac asesu'r tasgau a asesir yn fewnol wedi'i wneud yn unol â pholisïau a gweithdrefnau City & Guilds.

**Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol** – yn sicrhau bod unrhyw dystiolaeth asesu a gyflwynir yn fewnol o ansawdd cyson a phriodol.

**Cyflogwr/Rheolwr** – yn deall prosesau mewnol arferol y gweithle/lleoliad, dogfennaeth, systemau cyfathrebu ac ati, a gall asesu p'un a yw'r ymgeisydd yn eu defnyddio'n briodol ai peidio. Lle y bo'n briodol gall ddarparu tystiolaeth fel tyst arbenigol ar gyfer y portffolio o ran arferion dyddiol y gweithle.

**Gweithiwr Proffesiynol Arall** – tyst arbenigol – ar gyfer gweithdrefnau arbenigol neu unedau y mae angen arbenigedd penodol arnyn nhw, gall lleoliadau ddarparu tystiolaeth ychwanegol gan dyst arbenigol.

**Aseswr Allanol City & Guilds**[2] – aseswr cymwysedig, a benodwyd gan City & Guilds, sy'n gyfrifol am arddel y farn asesu derfynol am yr ymgeisydd ar gyfer y tasgau a asesir yn allanol.

**Aseswr Arweiniol City & Guilds** – bydd yn gyfrifol am samplu a safoni
barn asesu aseswyr allanol.

**Tiwtor** – yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o gynnwys y cymhwyster. Gall y tiwtor gefnogi mynediad at yr asesiad ond ni fydd yn gyfrifol am benderfynu ar ganlyniadau asesu.

**Noder**
Lle bydd yr ymgeisydd yn gweithio mewn sefyllfa lle nad oes perthynas reoli uniongyrchol, byddai disgwyl i elfennau'r broses a nodir yma lle mae angen i reolwr gymryd perchenogaeth ohonynt gael eu cyflawni'n llawn drwy rôl yr aseswr.

[1] I gadarnhau gofynion asesu mewnol y cymhwyster hwn, gweler yr adran **'Gofynion canolfannau'** yn Llawlyfr y Cymhwyster hwn
[2] I gadarnhau gofynion asesu allanol y cymhwyster hwn, gweler yr adran **'Cyflwyno'r Cymhwyster'** yn Llawlyfr y Cymhwyster hwn

# 5 Unedau

## Argaeledd unedau

Mae'r holl unedau wedi'u cynnwys yn y llawlyfr cymhwyster hwn;

| Rhif yr Uned | Teitl yr Uned |
|---|---|
| 440 | Deall deddfwriaeth yng nghyd-destun rôl Ymarferwr Gwasanaethau Cymdeithasol |
| 441 | Ymarfer proffesiynol |
| 442 | Deall damcaniaethau a modelau a'u perthynas ag ymarfer person/plentyn-ganolog a dulliau seiliedig ar hawliau |
| 443 | Deall ffactorau sy'n cyfrannu at yr angen i unigolion a/neu ofalwyr gael gofal a chymorth |
| 444 | Cefnogi'r broses asesu a chynllunio gofal a chymorth |
| 445 | Diogelu unigolion |

## Canllawiau ar gyflwyno cynnwys yr unedau

Mae'r crynodeb canlynol yn rhoi canllawiau ar y gwahanol elfennau sydd i'w cael yn yr unedau a gwybodaeth am gyflwyno'r unedau.

### Gwerth oriau dysgu dan arweiniad (ODA)

Mae'r gwerth hwn yn nodi faint o Oriau Dysgu dan Arweiniad y bydd eu hangen ar gyfer cyflwyno uned i ymgeisydd, ar gyfartaledd. Mae hyn yn cynnwys cyswllt â thiwtoriaid, hyfforddwyr neu hwyluswyr fel rhan o'r broses ddysgu, a dysgu ffurfiol gan gynnwys dosbarthiadau, sesiynau hyfforddi, seminarau a thiwtorialau. Mae'r gwerth hwn hefyd yn cynnwys yr amser a gymerir i baratoi ar gyfer asesu'r uned, a'i gwblhau. Mae oriau dysgu dan arweiniad yn cael eu talgrynnu i'r pum awr agosaf.

### Gwerth credyd

Mae'r gwerth hwn yn seiliedig ar yr oriau dysgu dan arweiniad **yn ogystal ag** unrhyw amser dysgu ychwanegol neu weithgareddau ychwanegol y bydd eu hangen ar y dysgwr i gwblhau'r uned. Er enghraifft, gall hyn gynnwys amser ar gyfer dysgu anffurfiol, astudio preifat, ymarfer, myfyrio ac ati. Mae cyfanswm yr oriau yn cael ei rannu â 10 i roi'r gwerth credyd. Mae gwerthoedd credyd yn cael eu talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.

### Crynodeb o'r uned

Yn y rhan hon mae crynodeb byr, lefel uchel o gynnwys yr uned yn ymdrin â'r wybodaeth ac ymarfer sydd dan sylw. Hefyd, gall y crynodeb o'r uned roi gwybodaeth am fathau o leoliadau y mae'r uned yn berthnasol iddyn nhw neu wedi'i hatal rhag cael ei chyflwyno ynddyn nhw.

### Deilliannau dysgu

Mae deilliannau dysgu yn grwpio darnau o wybodaeth gysylltiedig ynghyd ac yn cael eu cyflwyno fel canlyniad y broses ddysgu, h.y. yr hyn y mae'n rhaid i ddysgwyr ei ddeall neu allu ei wneud yn dilyn yr addysgu a'r dysgu. Mae nifer o feini prawf asesu yn ategu pob deilliant dysgu.

### Meini prawf asesu

Mae meini prawf asesu'n rhannu'r deilliant dysgu yn feysydd llai i'w cyflawni. Gall meini prawf asesu gael eu hategu gan ystod, a nodir gan eiriau neu ymadroddion mewn **print trwm.**

### Amrediad

Mae rhai geiriau neu ymadroddion mewn **print bras** yn y meini prawf asesu, sy'n dangos bod ystod wedi'i darparu a welir ar waelod y deilliant dysgu. Mae'r amrediad yn cynnwys gwybodaeth am faint o ddyfnder a manylder sydd eu hangen ar gyfer maen prawf asesu penodol. Nid yw'r ystod yn rhestr gynhwysfawr, gallai enghreifftiau eraill fod yn addas i'r maes testun hwn. Y gosodiadau sydd wedi'u cynnwys yn yr ystod yw'r rheini sy'n allweddol ar gyfer cyflwyno cynnwys yr uned – **rhaid ymdrin â'r holl elfennau a restrir yn yr ystod fel rhan o gyflwyno'r uned**.

### Canllawiau cyflwyno

Mae'r canllawiau hyn wedi'u hanelu at diwtoriaid, hyfforddwyr neu hwyluswyr wrth addysgu'r uned ac maen nhw'n cynnwys ystyriaethau penodol ar gyfer cyflwyno cynnwys yr uned lle y bo

hynny'n berthnasol. Er enghraifft, cysylltiadau y gellir eu gwneud rhwng unedau o fewn y cymhwyster neu enghreifftiau o'r ffordd y gellir cyflwyno'r cynnwys i ddysgwyr.

**Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol cysylltiedig**

Cyflwynir y rhain fel canllaw i diwtoriaid, hyfforddwyr neu hwyluswyr sy'n cyflwyno'r cynnwys ac maen nhw'n dangos lle y gall cynnwys yr unedau fod yn berthnasol i Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol cysylltiedig. Dim ond canllaw yw'r rhestr hon ac nid yw'n gynhwysfawr. Nid yw'n ofynnol i Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol gael eu cyflwyno fel rhan o unedau. D.S. – er y gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y rhai a restrir yn gyfredol, mae'n bosibl y bydd fersiynau newydd neu ddiwygiedig o Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn disodli'r rhai a restrir.

**Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig**

Cyflwynir y rhain er hwylustod cyfeirio ac er mwyn rhoi cyd-destun i'r uned, a gellir eu defnyddio er mwyn helpu i gyflwyno'r cynnwys a rhoi cyd-destun ehangach. Dim ond canllaw yw'r rhestr hon ac nid yw'n gynhwysfawr. Dylid sicrhau bod yr holl ddeddfwriaeth, canllawiau, gwefannau a dogfennau ac ati a restrir yn gyfredol ac yn berthnasol cyn cyflwyno cynnwys yr uned.

# Uned 440 Deall deddfwriaeth yng nghyd-destun rôl Ymarferwr Gwasanaethau Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 4 |
| **ODA:** | 63 |
| **Credyd:** | 16 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r amrywiaeth o ddeddfwriaeth sy'n gymwys yng nghyd-destun rôl Ymarferwr Gwasanaethau Cymdeithasol.<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolion' yn cyfeirio at oedolion a phlant a phobl ifanc. |

## Deilliant dysgu:

1. Deall pwysigrwydd meithrin gwybodaeth am ddeddfwriaeth a safonau sy'n gymwys yng Nghymru

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Pam ei bod hi'n bwysig i Ymarferwyr Gwasanaethau Cymdeithasol feddu ar wybodaeth a dealltwriaeth o ddeddfwriaeth a sut mae hyn yn ymwneud â'u rôl

1.2 Pwysigrwydd deall y **rhyngberthynas** rhwng gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth a sut y gall hyn effeithio ar:

- rôl Ymarferwyr Gwasanaethau Cymdeithasol
- unigolion a gofalwyr

Rôl y Comisiynydd Pobl Hŷn a'r Comisiynydd Plant wrth bennu safonau sy'n anelu at wella canlyniadau i oedolion a phlant a phobl ifanc

### Amrediad

**Rhyngberthynas:** cefnogi a herio

## Deilliant dysgu:

2. Deall Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

2.1 Nod, diben ac egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

2.2 Y diffiniad o lesiant a rôl gwasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar

2.3 Diffiniad a rôl Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth
2.4 Y Datganiadau Canlyniadau Cenedlaethol a sut mae'r rhain yn ymwneud ag egwyddorion y Ddeddf
2.5 Y broses asesu - gan gynnwys anghenion cymwys ac anghymwys
2.6 Sut mae'r Ddeddf yn deddfu o ran asesu a chefnogi gofalwyr yn ogystal ag unigolion
2.7 Taliadau uniongyrchol, sut y cânt eu diffinio a sut y gellir eu defnyddio
2.8 Y broses cynllunio gofal a/neu gymorth a'r broses adolygu
2.9 Y mathau gwahanol o eiriolaeth a ddiffinnir yn y Ddeddf a'r Cod Ymarfer
2.10 Pryd y caiff eiriolaeth broffesiynol annibynnol ei sbarduno o dan y Ddeddf

---

## Deilliant dysgu:

3. Deall deddfwriaeth sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

3.1 Nod, diben ac egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)
3.2 Y diffiniad o lesiant a rôl gwasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar
3.3 Diffiniad a rôl Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth
3.4 Y Datganiadau Canlyniadau Cenedlaethol a sut mae'r rhain yn ymwneud ag egwyddorion y Ddeddf
3.5 Y broses asesu - gan gynnwys anghenion cymwys ac anghymwys
3.6 Sut mae'r Ddeddf yn deddfu o ran asesu a chefnogi gofalwyr yn ogystal ag unigolion
3.7 Taliadau uniongyrchol, sut y cânt eu diffinio a sut y gellir eu defnyddio
3.8 Y broses cynllunio gofal a/neu gymorth a'r broses adolygu
3.9 Y mathau gwahanol o eiriolaeth a ddiffinnir yn y Ddeddf a'r Cod Ymarfer
3.10 Pryd y caiff eiriolaeth broffesiynol annibynnol ei sbarduno o dan y Ddeddf

---

## Deilliant dysgu:

4. Deall Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Rydych yn deall:

4.1 Nod a diben y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)
4.2 Sut mae'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn gymwys i rôl Ymarferwyr Gwasanaethau Cymdeithasol

---

## Deilliant dysgu:

5. Deall y Ddeddf Hawliau Dynol

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

5.1 Nod, diben a **chymhwysiad** Deddf Hawliau Dynol 1998
5.2 Sut mae'r ddeddf hawliau dynol wedi'i hymgorffori mewn deddfwriaeth arall, a pholisïau a chanllawiau cenedlaethol
5.3 Erthyglau'r Ddeddf Hawliau Dynol

---

5.4 Confensiynau'r CU ac Offerynnau Hawliau Dynol a sut mae'r rhain yn ymwneud â'r Ddeddf Hawliau Dynol

### Amrediad

**Cymhwysiad:** lle mae'n gymwys a chyfrifoldebau, rôl cyrff/awdurdodau cyhoeddus

---

### Deilliant dysgu:

6. Deall y Ddeddf Cydraddoldeb

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

6.1 Nod, diben a chymhwysiad Deddf Cydraddoldeb 2010
6.2 Nodweddion gwarchodedig a sut y caiff y rhain eu diffinio
6.3 Sut mae'r Ddeddf Cydraddoldeb wedi cael ei defnyddio i ddatblygu ymhellach arferion cydraddoldeb a gwrthwahaniaethol yn y DU
6.4 Mathau o ymddygiad gwaharddedig a sut y caiff y rhain eu diffinio
6.5 Addasiadau rhesymol a sut y dylai'r rhain gael eu defnyddio er mwyn sicrhau nad yw unigolion anabl dan anfantais
6.6 Dyletswyddau penodol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb i gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru

---

### Deilliant dysgu:

7. Deall y Ddeddf Galluedd Meddyliol

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

7.1 Nod a diben y Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005)
7.2 Y prif **ddarpariaethau** a gyflwynwyd gyda'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a sut y gallant gael eu defnyddio i helpu unigolion i flaengynllunio
7.3 Prif egwyddorion deddfwriaeth galluedd meddyliol
7.4 Dau gam asesu galluedd, pwy all wneud hyn
7.5 Sut y gall Ymarferwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ddefnyddio'r Ddeddf Galluedd Meddyliol i ddiogelu hawliau dynol unigolyn
7.6 Y broses o gynnal cyfarfod budd pennaf a phwy ddylai gymryd rhan
7.7 Mesurau Diogelu Rhyddid a sut y dylai'r rhain gael eu cymhwyso
7.8 Sut i godi pryderon am gyfyngu ar ryddid neu amddifadu o ryddid
7.9 Y rhyngberthynas rhwng y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Ddeddf Iechyd Meddwl
7.10 Pan fo dyletswydd a phŵer i gyfeirio at Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol

### Amrediad

**Darpariaethau:** atwrneiaeth barhaol, dirprwy llys, penderfyniadau ymlaen llaw, cyfreithiwr swyddogol, cyfaill ymgyfreitha

---

### Deilliant dysgu:

8. Deall y Ddeddf Iechyd Meddwl

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

8.1 Nod a diben Deddf Iechyd Meddwl 1983, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007, Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

8.2 Y gwahaniaeth rhwng cleifion ffurfiol ac anffurfiol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl

8.3 Beth yw ystyr y term 'cymhelliad'

8.4 **Llwybrau** a meini prawf cadw unigolyn o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl

8.6 Pryd mae dyletswydd i hysbysu unigolyn am ei hawl i gael cymorth gan Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol

8.7 Lle mae dyletswydd i ystyried cyfeirio unigolyn at Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol am eiriolaeth nas cyfeirir

8.8 **P**werau o fewn deddfwriaeth iechyd meddwl gyfredol a phwy all eu gweithredu

8.9 Amrywiaeth o **fesurau diogelu** o fewn deddfwriaeth iechyd meddwl gyfredol.

### Amrediad

**Llwybrau:** ar gyfer cleifion unigol a dderbynnir i'r ysbyty dan orfod adrannau sifil a fforensig, a wneir yn destun gwarcheidwaeth, a wneir yn destun Gorchymyn Triniaeth Gymunedol a Oruchwylir

**Pwerau:** pwerau cadw, pwerau trin, pwerau dal, pwerau'r heddlu

**Mesurau Diogelu:** Tribiwnlys Haen Gyntaf, Gwrandawiad Rheolwyr Ysbyty, Perthynas Agosaf, Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol, yr hawl i ofyn am Feddyg a Benodir i Roi Ail Farn, yr hawl i gwyno

---

### Deilliant dysgu:

9. Deall deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

9.1 Deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg a sut mae hyn yn gysylltiedig â rôl Ymarferwr Gwasanaethau Cymdeithasol

9.2 Pwysigrwydd y 'Cynnig Gweithredol' o ran llesiant unigolion

9.3 Prif egwyddorion a darpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg (1993) a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

9.4 Gofynion deddfwriaeth yn ymwneud â'r Gymraeg o ran cyrff cyhoeddus

9.5 Sut i godi pryderon am gymhwyso deddfwriaeth yn ymwneud â'r Gymraeg

# Uned 440 Deall deddfwriaeth yng nghyd-destun rôl Ymarferwr Gwasanaethau Cymdeithasol

Gwybodaeth Ategol

## *Canllawiau cyflwyno*

**Gofalwyr/gofalwyr ifanc** - Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (y Ddeddf) yn diffinio gofalwr fel "person sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl".

Mae'r diffiniad yn eang ac yn cynnwys gofalwyr sy'n oedolion, gofalwyr ifanc, gofalwyr sy'n oedolion ifanc, gofalwyr sy'n rhieni (sy'n gofalu am blentyn anabl) a gofalwyr brechdan fel y'u gelwir (sef pobl sy'n gofalu am berson/perthynas hŷn yn ogystal â magu teulu).

Yn ôl Llywodraeth Cymru mae gofalwyr ifanc yn ofalwyr o dan 18 oed. Er bod rhywun o dan 18 oed yn dal i gael ei ystyried yn ofalwr bydd ei hawliau fel gofalwr ifanc yn wahanol i rai oedolyn ar adegau.

Yn ôl y Cod Ymarfer ar gyfer Rhan 3 o'r Ddeddf mae gofalwyr sy'n oedolion ifanc rhwng 16 a 25 oed.

Ni fydd person yn ofalwr o dan y Ddeddf os yw'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal (a) o dan gontract, neu (b) fel gwaith gwirfoddol.

**Taliadau uniongyrchol:**

Yn ôl y Ddeddf mae taliadau uniongyrchol yn gwella gallu unigolyn i gael dewis a rheolaeth wirioneddol o ran y ffordd y gellir cyflawni ei ganlyniadau personol: mae'n annog eu defnyddio. Lle nodwyd anghenion gofal a chymorth cymwys, neu anghenion cymorth yn achos gofalwr, a bod yr unigolyn hwnnw, neu ei gynrychiolydd, yn mynegi dyhead i gael un, rhaid sicrhau bod taliadau uniongyrchol ar gael ym mhob achos lle maent yn golygu y gellir cyflawni canlyniadau personol.

Bwriedir i daliadau uniongyrchol gael eu defnyddio mewn ffordd hyblyg ac arloesol, ac ni ddylai fod unrhyw gyfyniad afresymol ar eu defnyddio ar yr amod y gwneir hynny i ddiwallu angen cymwys am ofal a chymorth. Mae'r Ddeddf yn dileu rhai eithriadau cyfredol o ran rhai dosbarthiadau o daliadau (gyda mesurau diogelu priodol).

Newid allweddol yw y gall taliadau uniongyrchol gael eu darparu ar gyfer unrhyw angen a nodir am gymorth y dylai awdurdod lleol ei ddiwallu gan gynnwys, yn wahanol i'r sefyllfa flaenorol, leoliadau preswyl hirdymor.

Bydd oedolyn, plentyn / ei deulu neu ofalwr yn gallu defnyddio ei daliadau uniongyrchol i brynu ei ofal a'i gymorth yn uniongyrchol oddi wrth ei awdurdod lleol os yw'n dymuno (gwaharddwyd hyn o'r blaen).

Roedd y rheoliadau blaenorol o ran taliadau uniongyrchol yn caniatáu cyflogi perthnasau agos a oedd yn byw ar yr un aelwyd ar yr amod bod yr awdurdod lleol yn cytuno bod angen gwneud hyn er mwyn bodloni gofynion yr unigolyn. Bellach caiff hyn ei weld a'i fynegi'n fwy cadarnhaol ar yr amod nad yw'r awdurdod lleol yn amau a yw'r unigolyn am weld trefniant o'r fath ar waith a'i fod yn cael sicrwydd y caiff canlyniadau personol yr unigolyn eu cyflawni yn ei sgil.

Mae llawer o bobl yn defnyddio'r taliad uniongyrchol i ddod yn gyflogwr e.e. drwy gyflogi cynorthwyydd personol. Os felly, dylai'r awdurdod lleol roi cyngor clir i bobl o ran eu cyfrifoldebau wrth reoli taliadau uniongyrchol.

Yn gyffredinol, dylai pobl gael cymorth i barhau i allu derbyn taliad uniongyrchol lle na allant neu lle nad ydynt yn barod i reoli un.

**Cymhwysedd am ofal a chymorth:**
Bydd gan yr unigolyn angen cymwys am ofal a chymorth os bydd asesiad yn nodi mai dim ond os yw'r awdurdod lleol yn gweithio gydag ef i baratoi cynllun gofal a chymorth, neu gynllun cymorth i ofalwr, ar y cyd ac yn sicrhau bod y cynllun yn cael ei gyflawni, y gall oresgyn rhwystrau i gyflawni ei ganlyniadau personol.

Os na all darparu gofal a chymorth helpu'r unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau personol ni fydd unrhyw gwestiwn ynghylch cymhwysedd. Ni fwriedir i feini prawf cymhwysedd wneud i wasanaethau gofal a chymorth awdurdodau lleol ymdrin â heriau na allant fynd i'r afael â nhw (megis darparu gofal iechyd, cyflogaeth neu addysg).

Os na ellir cyflawni canlyniadau personol yr unigolyn, neu na ellir eu cyflawni'n ddigonol, drwy'r gofal a'r cymorth a gydgysylltir ganddo ef ei hun, neu ei deulu neu ei ofalwyr yn unig, bydd gan yr unigolyn angen cymwys.

Bydd y penderfyniad ynghylch cymhwysedd yn llifo'n naturiol o'r broses asesu. Rhaid i'r pum elfen gael eu hystyried yn yr asesiad, ac yna bernir a oes gan yr unigolyn anghenion cymwys. Nid oes unrhyw drothwyon o ran cymhwysedd mwyach. Nid oes a wnelo penderfynu ar gymhwysedd â rhoi hawl i unrhyw un gwasanaeth; mae a wnelo â darparu gofal a chymorth er mwyn cyflawni canlyniadau personol.

Noder bod yn rhaid i'r Set Ddata Graidd Ofynnol Genedlaethol gael ei chwblhau fel rhan o'r asesiad cychwynnol.

Mae'r rheoliadau yn nodi'n benodol anghenion sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer plant. Rhaid nodi a fyddai effaith andwyol ar ddatblygiad y plentyn os na fyddai'r angen yn cael ei ddiwallu. Rhaid i'r broses o asesu anghenion plant ymwneud â chyflawni eu buddiannau pennaf a diogelu eu lles.

Rhan allweddol o'r broses asesu yw nodi a oes rheswm rhesymol dros amau bod oedolyn neu blentyn yn profi cam-drin, esgeulustod neu niwed arall, neu'n wynebu risg o hynny.

Elfennau allweddol asesiad o angen:
Gwnaeth y Ddeddf hi'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud newidiadau sylweddol i'r ffordd maent yn ymateb i unigolion ag anghenion gofal a chymorth a'r gwasanaethau maent yn eu comisiynu. Yn sgil gweithredu'r Ddeddf bu'n rhaid newid ymarfer asesu, o nodi'r gwasanaethau sydd eu hangen ar unigolyn i bwyslais ar y gofal a'r cymorth sydd eu hangen ar yr unigolyn er mwyn cyflawni'r canlyniadau personol sy'n bwysig iddo – canlyniadau a nodir drwy sgwrs barchus am y ffordd y mae'r unigolyn a / neu ei deulu am reoli penderfyniadau ynghylch ei ofal a'i gymorth.

Dylai'r broses asesu fod yn seiliedig ar egwyddorion cydgynhyrchu fel bod ymarferwyr ac unigolion yn rhannu'r pŵer i gydgynllunio. Gallai hyn olygu newid yn y berthynas rhwng gweithwyr proffesiynol a'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau. I weithwyr proffesiynol bydd yn bwysig peidio ag osgoi risg gormod, a galluogi a grymuso unigolion.

Ystyrir bod datblygu dull seiliedig ar gryfderau yn agwedd allweddol ar gydweithio rhwng yr unigolyn a gynorthwyir a'r gweithiwr neu'r gweithwyr proffesiynol sy'n ei gynorthwyo, gan weithio gyda'i gilydd i nodi canlyniadau sy'n manteisio ar gryfderau ac asedau'r unigolyn.

Ni roddir y prif bwyslais ar broblemau na diffygion, ond yn hytrach adeiladu ar adnoddau ac asedau pobl, gan gynnwys cryfderau, galluoedd a theuluoedd neu gymunedau'r bobl. Efallai y bydd ymarferwyr am ddefnyddio'r rhestr ganlynol er mwyn ystyried eu hymarfer eu hunain:

- Canolbwyntio ar ganlyniadau: elfen ganolog dull seiliedig ar gryfderau yw'r graddau y mae pobl eu hunain yn nodi'r canlyniadau yr hoffent eu cyflawni yn eu bywydau (i'r rhai â chyfrifoldeb rhiant dros blant o dan 16 oed, y canlyniadau yr hoffent eu gweld i'w plentyn) ac yna bydd ymarferwyr yn gweithio gyda nhw i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir.
- Y gallu i ddeall a datblygu ymatebion y gymuned i'r angen i ofalu am unigolion a'u cynorthwyo, yn hytrach nag asesu gwasanaethau.
- Lleihau'r ddibyniaeth ar ddulliau rhagnodol ffurfiol a phwysleisio ymhellach y defnydd o farn broffesiynol. Dylai gweithwyr proffesiynol symud tuag at rymuso, gan gadw lles a/neu lesiant yr unigolyn mewn cof drwy'r amser.
- Cynnal asesiadau sy'n gymesur â difrifoldeb yr angen am ofal a chymorth a chymhlethdod y sefyllfa.

Adnodd asesu a chymhwysedd cenedlaethol

Rhaid i asesiadau, fan leiaf, gofnodi gwybodaeth yn unol â'r adnodd asesu a chymhwysedd cenedlaethol, sy'n cynnwys y set ddata graidd ofynnol genedlaethol a dadansoddiad yn seiliedig ar y pum elfen asesu:

- asesu ac ystyried amgylchiadau'r unigolyn;
- ystyried ei ganlyniadau personol;
- asesu ac ystyried unrhyw rwystrau i gyflawni'r canlyniadau hynny;
- asesu ac ystyried unrhyw risgiau i'r unigolyn os na chyflawnir y canlyniadau; a
- asesu ac ystyried cryfderau a galluoedd yr unigolyn.

Mae'r broses asesu yn gofyn i ymarferwyr gynnal trafodaethau â phobl er mwyn nodi beth sy'n bwysig iddynt a'r canlyniadau personol maent am eu cyflawni (ac yn achos plant, y canlyniadau mae unrhyw un â chyfrifoldeb rhiant drostynt am eu cyflawni ar ran y plentyn), a pha gyfraniad y gall yr unigolyn a'i deulu neu'r gymuned ehangach ei wneud i gyflawni'r canlyniadau hynny.

Dylai asesiadau effeithiol fod yn brofiadau gwerthfawr ynddynt eu hunain. Dylent feithrin gwell dealltwriaeth o sefyllfa rhywun, nodi'r dull mwyaf priodol, a chreu cynllun sy'n nodi sut y bydd yn cyflawni ei ganlyniadau personol.

**Mathau o Eiriolaeth:**

**Hunaneiriolaeth** - pan fydd unigolion yn cynrychioli eu hunain ac yn siarad dros eu hunain.

**Eiriolaeth anffurfiol** - pan fydd teulu, ffrindiau neu gymdogion yn cefnogi unigolyn i sicrhau bod ei ddymuniadau a'i deimladau yn cael eu clywed, a all gynnwys siarad ar ei ran.

**Cydeiriolaeth** - lle bydd grwpiau o unigolion â phrofiadau cyffredin yn cael eu grymuso i gael llais a dylanwadu ar newid a hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol.

**Eiriolaeth cyfoedion** - un unigolyn yn gweithredu fel eiriolwr dros unigolyn arall sy'n rhannu profiad neu gefndir cyffredin.

**Eiriolaeth dinasyddion** - partneriaeth hirdymor un i un rhwng eiriolwr dinasyddion gwirfoddol sydd wedi'i hyfforddi neu a gefnogir ac unigolyn.

**Eiriolaeth wirfoddol annibynnol** - lle bydd eiriolwr annibynnol, di-dâl, yn gweithio ar sail byrdymor, neu ar sail mater penodol, gydag un unigolyn neu fwy.

**Eiriolaeth ffurfiol** - gall gyfeirio at rôl eirioli staff mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, a lleoliadau eraill, lle mae angen i weithwyr proffesiynol, fel rhan o'u rôl, ystyried dymuniadau a theimladau'r unigolyn a helpu i sicrhau yr ymdrinnir â nhw'n briodol.

**Eiriolaeth broffesiynol annibynnol** - mae'n cynnwys partneriaeth un i un rhwng eiriolwr proffesiynol annibynnol sydd wedi'i hyfforddi a'i dalu i gyflawni ei rôl broffesiynol fel eiriolwr. Gall hyn fod ar gyfer un mater neu sawl mater. Rhaid i eiriolwyr proffesiynol annibynnol sicrhau bod barn unigolion yn cael ei chyfleu'n gywir ni waeth beth yw barn yr eiriolwr nac eraill o ran budd pennaf yr unigolion.

**Eiriolaeth a Gyfarwyddir:** fel rheol bydd eiriolwyr yn cael eu cyfarwyddo gan yr unigolyn, hyd yn oed os na fydd yr unigolyn wedi atgyfeirio ei hun at y cynllun eirioli. Gyda'i gilydd, gallant feithrin perthynas a nodi'r materion eiriolaeth, nodau a chanlyniadau bwriadedig yn unol â dymuniadau a dewisiadau a chydsyniad y defnyddiwr.

Gall fod angen **eiriolaeth nas cyfarwyddir** pan fydd problemau cyfathrebu a chapasiti yn golygu na rennir cyfarwyddiadau, ac na fynegir dewisiadau na phryderon. Mae'n gyfystyr â:- "...taking affirmative action with or on behalf of a person who is unable to give a clear indication of their views or wishes in a specific situation. The non-instructed advocate seeks to uphold the person's rights; ensure fair and equal treatment and access to services; and make certain that decisions are taken with due consideration for their unique preferences and perspectives." (Henderson (2006)). Gall eiriolwyr nas cyfarwyddir gymryd camau gwahanol wrth gynrychioli'r unigolyn yn seiliedig ar hawliau dynol, bod yn berson-ganolog, cynnal goruchwyliaeth neu weithredu fel tyst ac arsylwr.

**Sut mae'r ddeddf hawliau dynol wedi'i hymgorffori mewn deddfwriaeth arall, a pholisïau a chanllawiau cenedlaethol:** er enghraifft; Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Mesur Hawliau Plant 2011, y Fframwaith Byw'n Annibynnol

**Egwyddorion allweddol Deddf yr Iaith Gymraeg 1993:** mae a wnelo hyn â chanlyniadau dymunol Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

**Deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg:** i gynnwys Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

**Deddf Galluedd Meddyliol:**
Nod y Ddeddf Galluedd Meddyliol yw grymuso ac amddiffyn pobl na allant efallai wneud rhai penderfyniadau drostynt eu hunain. Mae hefyd yn galluogi pobl i flaengynllunio rhag ofn na allant wneud penderfyniadau pwysig drostynt eu hunain yn y dyfodol.

Gall y Ddeddf fod yn gymwys i bob math o benderfyniad megis:

- penderfyniadau mawr fel penderfyniadau am gyllid personol, gofal cymdeithasol neu driniaeth feddygol
- penderfyniadau pob dydd fel penderfyniadau am beth i'w wisgo neu ei fwyta

Mae'r gyfraith yn gweithio ar sail yr egwyddor y tybir bod gan bawb alluedd i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain os cânt ddigon o wybodaeth, cefnogaeth ac amser. Mae'n amddiffyn eu hawl i wneud eu penderfyniadau eu hunain a bod yn rhan o unrhyw benderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Rhaid barnu galluedd person yn ôl y penderfyniad penodol sydd angen ei wneud, ac nid dim ond oherwydd ei salwch, anabledd, oedran, ymddangosiad neu ymddygiad.

Egwyddor bwysig yn y gyfraith yw nad yw'r ffaith bod rhywun yn ymddangos fel petai'n gwneud penderfyniad annoeth (hyd yn oed os oes ganddo salwch neu anabledd) o reidrwydd yn golygu nad oes ganddo alluedd. Ceir mesurau diogelu cyfreithiol y mae'n rhaid eu dilyn wrth wneud penderfyniad ar ran rhywun nad oes ganddo'r galluedd i wneud y penderfyniad - rhaid ei wneud er ei 'fudd pennaf'.

Mae gan y Ddeddf bum egwyddor arweiniol:

Egwyddor 1: Tybio galluedd – mae gan berson hawl i wneud ei benderfyniadau ei hun a rhaid tybio bod ganddo'r galluedd i wneud hynny oni phrofir fel arall. Golyga hyn na allwch dybio na all person wneud penderfyniad drosto'i hun dim ond am fod ganddo gyflwr meddygol neu anabledd penodol, e.e. dementia.

Egwyddor 2: Rhaid i bobl gael eu cefnogi i wneud eu penderfyniadau eu hunain – rhaid i berson gael pob help ymarferol cyn i unrhyw un ei drin fel rhywun na all wneud ei benderfyniadau ei hun. Golyga hyn y dylech ymdrechu i annog a chefnogi pobl i wneud y penderfyniad drostyn nhw eu hunain. Os nodir nad oes galluedd meddyliol, mae'n dal i fod yn bwysig cynnwys y person cymaint â phosibl wrth wneud penderfyniadau.

Egwyddor 3: Penderfyniadau annoeth – mae gan bobl yr hawl i wneud penderfyniadau y gall eraill eu hystyried yn annoeth neu'n ecsentrig. Ni allwn drin person fel rhywun nad oes ganddo alluedd meddyliol am y rheswm hwn. Mae gan bawb eu gwerthoedd, eu credoau a'u dewisiadau eu hunain na fyddant o reidrwydd yr un peth â rhai pobl eraill.

Egwyddor 4: Budd pennaf – rhaid i unrhyw beth a wneir ar gyfer neu ar ran person heb alluedd meddyliol gael ei wneud er ei fudd pennaf – ac nid er mwyn diogelu'r asiantaeth na buddiannau eraill ar draul y person.

Egwyddor 5: Opsiwn llai cyfyngol – rhaid i rywun sy'n gwneud penderfyniad neu sy'n gweithredu ar ran person nad oes ganddo alluedd ystyried a yw'n bosibl gwneud penderfyniad neu weithredu mewn ffordd a fyddai'n amharu llai â hawliau a rhyddid i weithredu'r person, neu a oes angen gwneud penderfyniad neu weithredu o gwbl. Dylid pwyso a mesur unrhyw ymyriad yn ôl amgylchiadau penodol yr achos.

**https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2005/9/contents**

Os aseswyd nad oes gan unigolyn alluedd i wneud penderfyniadau mewn maes penodol, yna rhaid i unrhyw benderfyniadau a wneir ar ei ran gael eu gwneud er ei fudd pennaf: **https://www.mind.org.uk/information-support/legal-rights/mental-capacity-act-2005/overview/#.XO0DdsHQZPw**

Mewn rhai amgylchiadau efallai y bydd angen amddifadu unigolyn o'i ryddid fel y gall aros yn ddiogel a chael y gofal a'r driniaeth sydd eu hangen arno:
**https://1f2ca7mxjow42e65q49871m1-wpengine.netdna-ssl.com/wp-content/uploads/2019/04/Mental-Capacity-Guidance-Note-Best-Interests-April-2019.pdf**

**Y Ddeddf Iechyd Meddwl:** Nodir yr egwyddorion arweiniol a ddylai gael eu hystyried bob amser wrth wneud penderfyniadau o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn y Cod Ymarfer i Gymru:

- Urddas a pharch
- Opsiwn lleiaf cyfyngol a sicrhau cymaint o annibyniaeth â phosibl
- Tegwch a chydraddoldeb
- Grymuso a chynnwys
- Cadw pobl yn ddiogel
- Effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd

**Mesur Iechyd Meddwl:** Nodir yr egwyddorion arweiniol sy'n sail i Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2011 yn y Cod Ymarfer ar gyfer Rhannau 2 a 3:
**https://www.assembly.wales/Laid%20Documents/GEN-LD8880%20-%20Code%20of%20Practice%20to%20Parts%202%20and%203%20of%20the%20Mental%20Health%20(Wales)%20Measure%202010-23042012-232786/gen-ld8880-e-Cymraeg.pdf**

Mae'r Mesur yn cynnwys chwe rhan, ond mae pedair prif ran sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i unigolion yn uniongyrchol:
**http://www.mentalhealthwales.net/mental-health-measure/**

**Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl:** Mae Cod Ymarfer y Ddeddf Iechyd Meddwl (i Gymru, 2016) yn egluro rôl Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru sy'n sicrhau y diogelir pobl a gyfyngir gan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn sylweddol.
**https://gweddill.gov.wales/docs/dhss/publications/160920mentalacten.pdf**

**Canlyniadau llesiant cenedlaethol:**

| | |
|---|---|
| Meysydd Llesiant Cenedlaethol | Datganiadau llesiant cenedlaethol (a gymerir o'r Datganiad Llesiant Cenedlaethol)<br>Mae fersiwn lawn y Datganiad Llesiant ar gael yn:http://gov.wales/docs/dhss/publications/150722well- beingen.pdf |
| Sicrhau hawliau a hawlogaethau<br>Hefyd yn achos oedolion: Rheolaeth ar fywyd pob dydd | • Rwy'n gwybod ac yn deall pa ofal, cymorth a chyfleoedd sydd ar gael ac yn eu defnyddio er mwyn fy helpu i sicrhau fy llesiant<br>• Gallaf gael gafael ar yr wybodaeth gywir, pan fydd ei hangen arnaf, yn y ffordd rwyf am ei chael a defnyddio'r wybodaeth hon i reoli a gwella fy llesiant<br>• Caf fy nhrin ag urddas a pharch ac rwy'n trin eraill yn yr un ffordd<br>• Caiff fy llais ei glywed a gwrandewir arno<br>• Caiff fy amgylchiadau unigol eu hystyried |

| | |
|---|---|
| | • Rwy'n siarad drosof fy hun ac yn cyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio ar fy mywyd neu mae gennyf rywun a all wneud hynny drosof |
| Iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol | • Rwy'n iach ac yn weithgar ac yn gwneud pethau i gadw fy hun yn iach<br>• Rwy'n hapus ac yn gwneud pethau sy'n fy ngwneud yn hapus<br>• Caf y gofal a'r cymorth cywir, cyn gynted â phosibl<br>• Amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod<br>• Rwy'n ddiogel ac yn cael fy amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod<br>• Caf gymorth i amddiffyn y bobl sy'n bwysig i mi rhag camdriniaeth ac esgeulustod<br>• Caf wybodaeth am sut i leisio fy mhryderon |
| Addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden | • Rwy'n gallu dysgu a datblygu i'm llawn botensial<br>• Rwy'n gwneud y pethau sy'n bwysig i mi |
| Perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol | • Rwy'n perthyn<br>• Rwy'n cyfrannu at berthnasoedd diogel ac iach ac yn eu mwynhau<br>• Cyfraniad a wneir at y gymdeithas • Rwy'n ymgysylltu â'm cymuned ac yn cyfrannu ati<br>• Teimlaf fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi mewn cymdeithas |
| Llesiant cymdeithasol ac economaidd | • Rwy'n cyfrannu at fy mywyd cymdeithasol a gallaf fod gyda'r bobl a ddewisaf<br>• Nid wyf yn byw mewn tlodi<br>• Caf gymorth i weithio<br>• Caf yr help sydd ei angen arnaf i dyfu a bod yn annibynnol<br>• Caf ofal a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg os bydd angen hynny arnaf |
| Addasrwydd llety preswyl | • Rwy'n byw mewn cartref sy'n fy helpu orau i sicrhau fy llesiant |

**Deddfwriaeth arall a pholisïau a chanllawiau cenedlaethol sy'n hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc**: e.e. y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), troseddwyr ifanc, asesu oedran, gwahardd o addysg, bwlio, gweithio gyda phlant sy'n ceisio lloches, lleihau arferion cyfyngol, plant yn yr ystad ddiogel

**Confensiynau'r Cenhedloedd Unedig ac Offerynnau Hawliau Dynol:** Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig i Bobl Hŷn, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu pob math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

## *Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig*

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a chanllawiau statudol cysylltiedig a Chodau Ymarfer
- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a rheoliadau a chanllawiau statudol cysylltiedig
- Deddf Plant 1989 a 2004
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 **http://www.legislation.gov.uk/anaw/2018/2/contents/enacted**
- Deddf Hawliau Dynol (1998) **https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/42/contents**
- Datganiad Cyffredinol ar Hawliau Dynol (arweiniodd hyn at y confensiwn Ewropeaidd, a wnaeth wedyn arwain at y Ddeddf Hawliau Dynol)
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989
- Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn 1991
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau 2006
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau
- Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig i Bobl Hŷn
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu pob math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol (cyfrwymol ar lofnodwyr)
- Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (cyfrwymol ar lofnodwyr)
- Confensiwn ar Ddileu pob math o Wahaniaethu Hiliol
- Y Ddeddf Iechyd Meddwl (1983) diwygiwyd 2007 **https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1983/20/contents**
- **Deddf Iechyd Meddwl Cod Ymarfer Cymru (2016)** **https://gweddill.gov.wales/topics/health/nhswales/mental-health-services/law/code-of-practice/?lang=en**
- **Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (2010** **https://www.legislation.gov.uk/mwa/2010/7/contents**
- Mesurau Diogelu Rhyddid (LiPS)
- Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru (Comisiynydd Plant Cymru 2017)
- Gofyn a Gweithredu: Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod **https://livefearfree.gov.wales/policies-and-guidance/ask-and-act?lang=en**
- Concordat Gofal mewn Argyfwng: Gwella gofal a chymorth i bobl a gedwir o dan a.135/135 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl **https://gweddill.gov.wales/docs/dhss/publications/161109concordaten.pdf**
- Deddf Cydraddoldeb (2010) **http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/contents**
  Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 **www.legislation.gov.uk/wsi/2011/1064/pdfs/wsi_20111064_mi.pdf**
- Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data **https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/711097/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr-1-0.pdf**
- **Deddf yr Iaith Gymraeg (1993)** **https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1993/38/contents**
- **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011** **http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/contents/enacted**

- Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 https://www.gov.uk/government/publications/protection-of-freedoms-bill

## *Adnoddau*

- **https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/adnoddau** - deunyddiau dysgu ar gyfer y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)
- Iechyd Meddwl yng Nghymru Ffeithiau Sylfaenol (2016) **https://www.mentalhealth.org.uk/sites/default/files/FF16%20Wales%20WELSH.pdf**
- Y Gymraeg: **http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Sefydliadau/Pages/Safonaur%20Gymraeg.aspx**
- Adnoddau Cymraeg **https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/defnyddior-gymraeg-yn-y-gweithle**
- Safonau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer plant yn y system cyfiawnder ieuenctid 2019
  **https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/780504/Standards_for_children_in_youth_justice_services_2019.doc.pdf**

# Uned 441 Ymarfer proffesiynol

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 4 |
| **ODA:** | 10 |
| **Credyd:** | 9 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i fyfyrio ar eu hymarfer proffesiynol a'i ddatblygu fel ymarferwr gwasanaethau cymdeithasol.<br><br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolyn' yn cyfeirio at oedolion a phlant a phobl ifanc. |

## Deilliant dysgu:

1. Sicrhau bod eich datblygiad proffesiynol parhaus yn cyrraedd safonau ac yn bodloni gofynion ac yn adlewyrchu arferion gorau yng nghyd-destun gweithio yng Nghymru

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Cyfrifoldebau ac atebolrwydd proffesiynol yng nghyd-destun fframweithiau deddfwriaethol perthnasol, safonau, a Chodau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol
1.2 Gofynion deddfwriaethol, rheoliadol a sefydliadol sy'n ymwneud â Dyletswydd Gonestrwydd a phwysigrwydd bod yn agored a gonest os aiff pethau o chwith
1.3 Bod yn atebol am ansawdd eich ymarfer eich hun
1.4 Pwysigrwydd cydnabod cyfyngiadau rolau a chyfrifoldebau a glynu wrthyn nhw
1.5 Sut a phryd i geisio cymorth ychwanegol mewn sefyllfaoedd y tu hwnt i'r rôl, cyfrifoldebau, lefel o brofiad ac arbenigedd neu'n ansicr ynghylch sut i fwrw ymlaen mewn perthynas â mater gwaith
1.6 Diben datblygu mewn modd personol a phroffesiynol a chymryd y cyfrifoldeb am wneud hynny
1.7 Yr amrywiaeth o gyfleoedd dysgu a sut i achub arnynt
1.8 Sut i ddefnyddio cyfleoedd dysgu yn effeithiol er mwyn gwella eich gwybodaeth, dealltwriaeth, sgiliau ac ymarfer eich hun, gan gynnwys dysgu o brofiadau pob dydd
1.9 Sut i ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth i ddatblygu ymarfer a lywir gan dystiolaeth
1.10 Sut i gymhwyso dysgu a throsglwyddo sgiliau i sefyllfaoedd newydd

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.11 Sicrhau eich bod yn bodloni gofynion deddfwriaethol, safonau a Chodau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol sy'n ymwneud â datblygiad proffesiynol parhaus
1.12 Defnyddio llenyddiaeth, ymchwil ac adolygiadau perthnasol er mwyn sicrhau bod ymarfer yn gyfredol ac yn effeithiol

1.13 Gwerthuso eich gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau eich hun a'u hadolygu'n rheolaidd yn erbyn:
- gofynion deddfwriaethol perthnasol
- safonau a fframweithiau perthnasol
- Codau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol
- ymarfer a lywir gan dystiolaeth

i nodi meysydd i'w gwella

1.14 Ceisio adborth a myfyrio ar y ffordd y mae eich ymarfer eich hun:
- yn gwerthfawrogi, yn parchu, yn hyrwyddo ac yn dathlu amrywiaeth
- yn cydnabod ac yn hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru
- yn rhoi'r ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar waith
- yn herio anghydraddoldeb yn effeithiol
- yn hyrwyddo diwylliant sy'n deg, yn gynhwysol ac yn wrthwahaniaethol
- yn cynnal enw da proffesiwn gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol
- cydymffurfiaeth modelau rôl â Chodau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol
- yn cydnabod pŵer eich rôl ac yn ei ddefnyddio mewn ffordd sensitif

1.15 Defnyddio cyfleoedd datblygu i wella gwybodaeth, dealltwriaeth, sgiliau ac ymarfer
1.16 Defnyddio ffynonellau gwybodaeth i ddatblygu ymarfer a lywir gan dystiolaeth

---

## Deilliant dysgu:

2. Bodloni gofynion ar gyfer cyflwyno, cofnodi a storio gwybodaeth a chyflwyno adroddiadau arni

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1
2
2.1 Gofynion deddfwriaethol ym maes **trin gwybodaeth**
2.2 Protocolau ar gyfer cael a chadarnhau cydsyniad:
- unigolion a theuluoedd/gofalwyr wrth rannu gwybodaeth â gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol
- unigolion wrth rannu gwybodaeth â theuluoedd/gofalwyr

2.3 Fformat a diben cofnodion, adroddiadau a rhannu gwybodaeth a sut y dylid **cyflwyno** hyn

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
2.4 Sicrhau bod eich ymarfer eich hun yn bodloni gofynion cofnodi a storio gwybodaeth a chyflwyno adroddiadau arni yn y lleoliad gwaith
2.5 Dilyn protocolau ar gyfer rhannu gwybodaeth â gwasanaethau, gweithwyr proffesiynol, a theuluoedd/gofalwyr
2.6 Sicrhau bod eich cofnodion a'ch adroddiadau eich hun:
- yn fanwl gywir
- wedi'u dyddio
- yn wrthrychol
- yn eglur
- yn ddealladwy
- yn hygyrch

- yn adlewyrchu barn unigolion a/neu deuluoedd/gofalwyr
- yn parchu unigolion a/neu deuluoedd/gofalwyr
- wedi'u hysgrifennu mewn ffyrdd nad ydynt yn stigmateiddio unigolion a/neu deuluoedd/gofalwyr nac yn atgyfnerthu canfyddiadau negyddol ohonynt
- yn defnyddio iaith a disgrifyddion cywir ar gyfer cyflyrau penodol
- yn gwahaniaethu rhwng ffaith a barn
- wedi'u cyflwyno i'r sawl sydd angen gwneud penderfyniadau neu gymryd camau gweithredu
- wedi'u storio, eu rhannu a'u cadw yn unol â pholisïau, gofynion cyfreithiol a mesurau diogelu data'r sefydliad

## Amrediad

**Trin gwybodaeth:** storio, cofnodi, cyfrinachedd, rhannu
**Cyflwynwyd:** yn ysgrifenedig ac ar lafar

---

## Deilliant dysgu:

3. Datblygu trefniadau effeithiol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

2
3

3.1 Egwyddorion a **phrotocolau** gweithio mewn partneriaeth
3.2 Ystyr y term 'cydgynhyrchiad' mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth
3.3 Ystod a rôl partneriaid, gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
3.4 Sut mae deddfwriaeth yn llywio'r angen i weithio mewn partneriaeth i unigolion a gofalwyr
3.5 Gwerth cael partneriaid, gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau yn cydweithio i helpu unigolion a/neu ofalwyr i gyflawni canlyniadau cadarnhaol
3.6 Pwysigrwydd sicrhau bod pob achos o weithio mewn partneriaeth yn cynnwys unigolion a/neu eu gofalwyr

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.7 Hyrwyddo diwylliant o weithio mewn partneriaeth
3.8 Dilyn egwyddorion gweithio mewn partneriaeth a chyd-gynhyrchu wrth weithio gydag eraill
3.9 Ennyn ymddiriedaeth a hyder â phartneriaid, gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau gan gydnabod rolau, cyfrifoldebau, atebolrwyddau ac arbenigedd chi'ch hun ac eraill
3.10 Datblygu cydberthnasau effeithiol â phartneriaid a gweithwyr proffesiynol eraill wrth gynnal ffiniau proffesiynol clir ar yr un pryd
3.11 Cymryd camau i ddatrys heriau sy'n codi wrth weithio mewn partneriaeth
3.12 Dilyn **protocolau** cytûn ar gyfer gweithio mewn partneriaeth
3.13 Hyrwyddo hawliau a llesiant unigolion a/neu ofalwyr gyda phartneriaid, gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau

Amrediad

**Protocolau:** cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth, cadw cofnodion

# Uned 441 Ymarfer proffesiynol

Gwybodaeth Ategol

## *Canllawiau cyflwyno*

**Iaith a disgrifyddion cywir ar gyfer cyflyrau penodol:** e.e. salwch meddwl neu broblemau iechyd meddwl sydd â sail dystiolaeth ac nas tybir

Mae **Codau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol** yn cynnwys y Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol; Cod Ymddygiad GIG Cymru ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yng Nghymru, a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cyflogwyr GIG Cymru ac unrhyw ganllawiau ymarfer ychwanegol a gyhoeddir gan GIG Cymru neu reoleiddwyr iechyd neu ofal cymdeithasol yng Nghymru, e.e. Canllawiau Ymarfer

Gall **cyfleoedd datblygu** gynnwys cymysgedd o raglenni addysgol, gweithgareddau hyfforddi, mentora, coetsio, cysgodi, sefydlu, goruchwylio, darllen dan arweiniad, ymchwil, setiau dysgu gweithredol, trafodaethau grwpiau cyfoedion

**Partneriaid, gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau:** gallent gynnwys:

- Grwpiau a rhwydweithiau cymunedol
- Trydydd sector/sector gwirfoddol
- Statudol gan gynnwys gwasanaethau tai a digartrefedd
- Sector preifat/annibynnol
- Yr heddlu a gwasanaethau cyfiawnder troseddol
- Addysg
- Cyngor ar les
- Gofal sylfaenol
- Gweithwyr iechyd proffesiynol
- Gweithwyr cymdeithasol
- Therapyddion galwedigaethol
- Ffisiotherapyddion
- Gwasanaethau cyfarpar cymunedol
- Gwasanaethau technoleg gynorthwyol electronig
- Seiciatryddion
- Seicolegwyr
- Fferyllwyr
- Rheolwyr gwasanaeth
- Gweithwyr gofal a chymorth

Gallai **fframweithiau deddfwriaethol, safonau a Chodau Ymddygiad ac Ymarfer perthnasol** gynnwys:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Codau Ymarfer cysylltiedig
- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016: rheoliadau a chanllawiau statudol cysylltiedig
- Fframwaith Safonau Iechyd a Gofal (2015)
- Cod Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol
- Cod Ymarfer i Gyflogwyr
- Cod Ymddygiad ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yng Nghymru

- Canllawiau Ymarfer (a gyhoeddwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru)

### ***SGC cysylltiedig***

SCDHSC 0434 Arwain ymarfer ar gyfer rheoli a dosbarthu cofnodion ac adroddiadau
SCDHSC 0043 Cymryd cyfrifoldeb am ddatblygiad proffesiynol parhaus chi'ch hun ac eraill

# Uned 442 Deall damcaniaethau a modelau a'u perthynas ag ymarfer person/plentyn-ganolog a dulliau seiliedig ar hawliau

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 4 |
| **ODA:** | 64 |
| **Credyd:** | 20 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i ddatblygu'r wybodaeth a'r dealltwriaeth o ddamcaniaethau a modelau a'u perthynas ag ymarfer person/plentyn-ganolog a dulliau seiliedig ar hawliau.<br><br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolion' yn cyfeirio at oedolion a phlant a phobl ifanc. |

## Deilliant dysgu:

1. Deall damcaniaethau a modelau sy'n cefnogi ymarfer person/plentyn-ganolog a dulliau seiliedig ar hawliau

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Y cysyniad o ddamcaniaethau a modelau a'r gwahaniaethau rhyngddynt
1.2 Y cysyniad o ddinasyddiaeth a sut mae hyn yn hyrwyddo cyfranogiad a chynhwysiant ar gyfer pob aelod o gymdeithas
1.3 Sut mae gwerthoedd ac ymddygiadau yn effeithio ar ymarfer person/plentyn-ganolog a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd
1.4 Sut y gall ystyried **hawliau a rhyddid** gael ei gydbwyso â risg
1.5 Damcaniaethau cymdeithasegol a'u cysylltiad ag ymarfer person/plentyn-ganolog
1.6 Damcaniaethau seicolegol a'u cysylltiad ag ymarfer person/plentyn-ganolog
1.7 Modelau cymdeithasol a meddygol anabledd a'r tensiynau posibl rhyngddynt
1.8 Y model bioseicogymdeithasol fel ffordd o ddylanwadu ar ymarfer person/plentyn-ganolog

## Amrediad

**Hawliau a rhyddid:** dull hawliau dynol (i hyrwyddo ymarfer person/plentyn-ganolog ac asesu angen a risg, gan gynnwys yr hyn sy'n bwysig i unigolion)

## Deilliant dysgu:

2. Deall datblygiad dynol gydol oes a'r ffactorau a all effeithio arno

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1
2

2.1 Pam mae dealltwriaeth o ddatblygiad dynol yn bwysig i rôl ymarferwr gwasanaethau cymdeithasol

2.2 Camau allweddol datblygiad niwrolegol a datblygiad yr ymennydd yn ystod:
- y cyfnod cynenedigol
- plentyndod cynnar
- llencyndod
- oedolaeth ifanc

2.3 Y **ffactorau** posibl a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a allai effeithio ar ddatblygiad niwrolegol a datblygiad yr ymennydd mewn perthynas â **thwf corfforol, emosiynol a gwybyddol**

2.4 Y posibilrwydd y gall straen a thrawma beri niwed i ddatblygiad a llesiant cyffredinol gydol oes

2.5 Cysylltiadau rhwng profiadau o drawma a cham-drin, camau datblygu ac ymddygiad gydol oes

2.6 Pam na fydd datblygiad yn dilyn y patrwm disgwyliedig efallai

2.7 Y ffyrdd y gall datblygiad arafach mewn un maes effeithio ar y gallu i ddysgu sgiliau mewn meysydd eraill

2.8 Cysylltiadau rhwng profiad y teuluoedd eu hunain gydol oes, eu gwybodaeth am ddatblygiad plant a'u disgwyliadau ar gyfer nhw eu hunain a'u plant

2.9 Yr amrywiaeth o **ddosbarthiadau ymlyniad** a'r ffordd y mae'r rhain yn gysylltiedig â **phrofiadau bywyd**

2.10 **Damcaniaethau ymlyniad** a'u pwysigrwydd o ran:
- cefnogi gwydnwch, llesiant a datblygiad cyfannol plant a phobl ifanc
- deall effaith bosibl anawsterau o ran ymlyniad ar unigolion gydol eu hoes, y ffordd y maent yn gweithredu mewn cymdeithas, yn meithrin perthnasoedd ac yn ymateb i eraill

## Amrediad

**Ffactorau**: corfforol, amgylcheddol, genetig

**Twf corfforol, emosiynol a gwybyddol:** cyrraedd cerrig milltir datblygiadol, cyfathrebu, ymlyniad, rheoli emosiynau, ffurfio'r cof, llwybrau synhwyraidd, sgiliau echddygol bras a manwl

**Dosbarthiadau ymlyniad:**sicr, amwys, osgoi, di-drefn

**Profiadau bywyd**: esgeulustod a cham-drin, trawma, lleoliadau lluosog, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod

**Damcaniaethau ymlyniad:** damcaniaethwyr – John Bowlby, Mary Ainsworth, Mary Main, Dollard a Miller

---

## Deilliant dysgu:

3. Deall damcaniaethau a modelau sy'n gysylltiedig â newid

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

2
3

3.1 Mathau o newidiadau a all ddigwydd yn ystod bywyd unigolyn o ganlyniad i ddigwyddiadau arwyddocaol mewn bywyd neu drawsnewidiadau
3.2 **Damcaniaethau a modelau** sy'n gysylltiedig â newid
3.3 Pwysigrwydd helpu unigolion a/neu deuluoedd/gofalwyr i ganolbwyntio ar eu hasedau a'u cryfderau a all eu helpu yn ystod cyfnodau o newid

## Amrediad

**Damcaniaethau a modelau:** cromlin newid Kubler-Ross, Model Trawsnewid William Bridges

---

## Deilliant dysgu:

4. Deall pwysigrwydd defnyddio ymarfer person/plentyn-ganolog a dulliau seiliedig ar hawliau

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

4
4.1 Ystyr y term 'cydgynhyrchu' a sut mae'n cefnogi ymarfer person/plentyn-ganolog a dulliau seiliedig ar hawliau
4.2 Pam mae'n bwysig sicrhau bod unigolion a gofalwyr yn cael cymorth i:
- leisio barn a rheoli eu bywydau
- mynegi a chyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt
- cymryd rhan mewn amrywiaeth werthfawr o weithgareddau ystyrlon sy'n bwysig iddynt
- cynnal a datblygu cydberthnasau cadarnhaol rhwng y naill a'r llall
- cymryd rhan yn eu cymunedau
- byw bywydau llawn a gwerthfawr
- rheoli'r cyfyng gyngor a geir wrth bwyso a mesur eu hawl i gymryd risgiau a'u diogelwch a'u llesiant

4.3 Beth yw ystyr '**cydsyniad**'; amgylchiadau pan mae'n rhaid cael hyn a'r amgylchiadau pan gellir ei drechu
4.4 Y rhyngberthynas rhwng cymryd risgiau cadarnhaol a chyfrifoldebau, llais a rheolaeth, a chynhwysiant cymdeithasol
4.5 Pwysigrwydd cymryd risgiau i unigolion mewn bywyd bob dydd
4.6 Effaith atal unigolion rhag cymryd risgiau, neu eu darbwyllo rhag gwneud hynny

## Amrediad

**Cydsyniad:** oedolion, plant a phobl ifanc, teuluoedd a gofalwyr

---

# Uned 442 Deall damcaniaethau a modelau a'u perthynas ag ymarfer person/plentyn-ganolog a dulliau seiliedig ar hawliau

## Gwybodaeth Ategol

### *Canllawiau cyflwyno*

**Iaith a disgrifyddion cywir ar gyfer cyflyrau penodol:** e.e. salwch meddwl neu broblemau iechyd meddwl sydd â sail dystiolaeth ac nas tybir

Mae **Codau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol** yn cynnwys y Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol; Cod Ymddygiad GIG Cymru ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yng Nghymru, a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cyflogwyr GIG Cymru ac unrhyw ganllawiau ymarfer ychwanegol a gyhoeddir gan GIG Cymru neu reoleiddwyr iechyd neu ofal cymdeithasol yng Nghymru, e.e. Canllawiau Ymarfer

Gall **cyfleoedd datblygu** gynnwys cymysgedd o raglenni addysgol, gweithgareddau hyfforddi, mentora, coetsio, cysgodi, sefydlu, goruchwylio, darllen dan arweiniad, ymchwil, setiau dysgu gweithredol, trafodaethau grwpiau cyfoedion

**Partneriaid, gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau:** gallent gynnwys:

- Grwpiau a rhwydweithiau cymunedol
- Trydydd sector/sector gwirfoddol
- Statudol gan gynnwys gwasanaethau tai a digartrefedd
- Sector preifat/annibynnol
- Yr heddlu a gwasanaethau cyfiawnder troseddol
- Addysg
- Cyngor ar les
- Gofal sylfaenol
- Gweithwyr iechyd proffesiynol
- Gweithwyr cymdeithasol
- Therapyddion galwedigaethol
- Ffisiotherapyddion
- Gwasanaethau cyfarpar cymunedol
- Gwasanaethau technoleg gynorthwyol electronig
- Seiciatryddion
- Seicolegwyr
- Fferyllwyr
- Rheolwyr gwasanaeth
- Gweithwyr gofal a chymorth

Gallai **fframweithiau deddfwriaethol, safonau a Chodau Ymddygiad ac Ymarfer perthnasol** gynnwys:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Codau Ymarfer cysylltiedig
- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016: rheoliadau a chanllawiau statudol cysylltiedig
- Fframwaith Safonau Iechyd a Gofal (2015)

- Cod Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol
- Cod Ymarfer i Gyflogwyr
- Cod Ymddygiad ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yng Nghymru
- Canllawiau Ymarfer (a gyhoeddwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru)

### *Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig*

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a chanllawiau statudol cysylltiedig a Chodau Ymarfer
- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a rheoliadau a chanllawiau statudol cysylltiedig
- Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru (Comisiynydd Plant Cymru 2017)
- Deddf Hawliau Dynol (1998)

**https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/42/contents**

- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989
- Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn 1991
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau 2006

# Uned 443 Deall ffactorau sy'n cyfrannu at yr angen i unigolion a/neu ofalwyr gael gofal a chymorth

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 4 |
| **ODA:** | 60 |
| **Credyd:** | 17 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r amrywiaeth o ffactorau a all olygu bod angen i unigolion a/neu ofalwyr gael gofal a chymorth.<br><br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolion' yn cyfeirio at oedolion a phlant a phobl ifanc. |

## Deilliant dysgu:

1. Deall sut mae fframweithiau deddfwriaethol, polisïau cenedlaethol a modelau darparu gwasanaethau yn anelu at ategu gofal a chymorth sy'n seiliedig ar hawliau a chryfderau, sy'n berson/plentyn-ganolog, ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Fframweithiau deddfwriaethol, polisïau cenedlaethol a modelau dylunio a darparu gwasanaethau cyfredol a'u nodau o ran helpu unigolion a gofalwyr i:

- fyw bywydau llawn a gwerthfawr
- hawliau
- cydraddoldeb
- llais a rheolaeth
- cefnogi gwaith atal ac ymyrryd yn gynnar
- llesiant
- diogelwch
- cydgynhyrchu
- cynhwysiant a chyfranogiad
- dewisiadau bywyd
- cyfleoedd i gyflawni canlyniadau cadarnhaol/yr hyn sy'n bwysig
- mynediad at gyfleusterau cymunedol
- mynediad at ofal iechyd

1.2 Pwysigrwydd sicrhau bod anghenion, dymuniadau a dewisiadau unigolion yn llywio'r cymorth a'r gwasanaeth a geir yn hytrach na chael unigolion i ffitio i mewn i ddarpariaeth bresennol nad yw'n cyflawni canlyniadau a nodwyd efallai

1.3 Sut y gall rhywedd, ethnigrwydd ac iaith, ac amgylcheddau cymdeithasol, diwylliannol a chrefyddol effeithio ar unigolion a'r cymorth a gânt
1.4 **Effaith bosibl** cael gofal a chymorth
1.5 Sut y gall barn a thybiaethau ystrydebol eraill:
- gael eu dylanwadu'n amhriodol gan ffactorau, amodau neu amgylchiadau unigolion, teuluoedd a gofalwyr
- arwain at stigmateiddio unigolion, teuluoedd a gofalwyr
- cael effaith negyddol ar unigolion, teuluoedd a gofalwyr a'r ffordd maent yn gweithredu

1.6 Pam mae'n bwysig edrych ar unigolion a gofalwyr o safbwynt cyfannol
1.7 Pam ei bod hi'n bwysig i bob unigolyn a/neu ofalwr gael ei gydnabod am ei alluoedd, anghenion, cryfderau, a doniau unigol ei hun
1.8 Pwysigrwydd herio rhagfarn, delweddau ystrydebol, gwahaniaethu ac agweddau negyddol

## Amrediad

**Effaith bosibl:** cadarnhaol a negyddol

---

## Deilliant dysgu:

2. Deall y rhesymau pam y gall fod angen i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd/gofalwyr gael gafael ar ofal a/neu wasanaethau

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

2

2.1 Yr amgylchiadau a'r sefyllfaoedd penodol a all olygu bod angen i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd/gofalwyr gael gofal a chymorth
2.2 Yr amrywiaeth o wasanaethau, asiantaethau a gweithwyr proffesiynol sy'n darparu cymorth i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd/gofalwyr

---

## Deilliant dysgu:

3. Deall cyd-destun gofalwyr yng Nghymru

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

3

3.1 Y diffiniad deddfwriaethol o ofalwyr
3.2 Demograffeg gofalwyr
3.3 Y cyfraniad y mae gofalwyr yn ei wneud:
- at ansawdd bywyd unigolion
- at agenda bolisi atal ac ymyrryd yn gynnar

3.4 Y berthynas rhwng cefnogi gofalwyr a chynaliadwyedd gwasanaethau gofal a chymorth
3.5 Pwysigrwydd hyrwyddo'r gwaith o gefnogi llesiant gofalwyr, cynhwysiant cymdeithasol, addysg a chyflogaeth drwy gynllunio a darparu gwasanaethau
3.6 Ffactorau a all effeithio ar iechyd a llesiant corfforol a meddyliol gofalwyr
3.7 Effaith bosibl **newid a throsglwyddo** ar ofalwyr

3.8 Yr opsiynau asesu sydd ar gael i'r gofalwr a'r gofalwr ifanc gan gynnwys asesiadau ar y cyd â'r unigolyn
3.9 Pwysigrwydd cydnabod na fydd pawb sy'n gwneud gwaith di-dâl am gael eu labelu'n ofalwyr na chael eu cydnabod felly
3.10 Sut i ystyried rôl gofalwyr mewn ffordd sensitif, ynghyd â'r ffordd y gallent fod am gael eu cefnogi

### Amrediad

**Newid a throsglwyddo:** yn ymwneud â'r unigolyn, y gofalwyr neu pan fo'r rôl ofalu yn dod i ben

---

### Deilliant dysgu:

4. Deall y cysyniad o anabledd a nam corfforol

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

4
4.1 Ystyr y termau 'anabledd', 'anabl' a 'nam corfforol'
4.2 Pwysigrwydd cadarnhau gydag unigolion y derminoleg maent yn ei ffafrio a chydnabod y gall hyn newid dros amser
4.3 Ystyr y termau 'genedigol', 'a gafwyd', 'niwrolegol' a 'gwaethygol' yng nghyd-destun nam corfforol
4.4 Pwysigrwydd rhoi'r unigolyn yn y canol, yn hytrach na'r nam
4.5 Effeithiau (cadarnhaol a negyddol) cael eich labelu fel rhywun â nam corfforol
4.6 **Effeithiau cadarnhaol rhwystrau cymdeithasol ac amgylcheddol** ar unigolyn ag anabledd corfforol

### Amrediad

**Effeithiau posibl:**allgáu, economaidd-gymdeithasol, addysg, cyflogaeth, symudedd, annibyniaeth, llesiant emosiynol a chorfforol, iechyd meddwl, dewisiadau bywyd
**Rhwystrau cymdeithasol ac amgylcheddol:** agweddau ystrydebol, iaith negyddol/sarhaus, rhwystrau corfforol a sefydliadol

---

### Deilliant dysgu:

5. Deall salwch meddwl

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

5
5.1 Ystyr y term 'salwch meddwl'.
5.2 Y mathau o **broblemau iechyd meddwl** a'r symptomau y gall unigolion eu profi
5.3 Y **ffactorau** a all ddylanwadu ac effeithio ar lesiant unigolyn ac a all arwain at gyfnod o salwch meddwl
5.4 Arwyddion a symptomau posibl salwch meddwl
5.5 Yr amrywiaeth o wasanaethau, asiantaethau a gweithwyr proffesiynol sy'n darparu cymorth i unigolion sy'n profi salwch meddwl

5.6 Modelau a dulliau a all gael eu defnyddio i gefnogi prosesau cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol ag unigolion sy'n byw gyda salwch meddwl

Amrediad:

**Problemau iechyd meddwl**: i gynnwys iselder, anhwylderau gorbryder, seicosis, anhwylder deubegynol, sgitsoffrenia, anhwylderau personoliaeth, anhwylderau bwyta, anhwylder straen ar ôl trawma, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD)

**Ffactorau:** Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, digwyddiadau niweidiol eraill/trawma arall mewn bywyd a brofir fel oedolyn, gwahaniaethu, tlodi, salwch corfforol

---

Deilliant dysgu

6. Deall dementia

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

6

6.1 Mathau o ddementia, eu hachosion posibl a'r amrywiaeth o effeithiau gwahanol sy'n gysylltiedig â phrognosis unigolyn, ei alluoedd a'i iechyd a'i lesiant cyffredinol

6.2 Y gwahaniaethau rhwng y prif fathau o ddementia, a'r hyn sy'n **gyffredin** rhyngddynt

6.3 **Amharu ar y cof** a'i effaith o ran dementia

6.4 Sut y gall rhai mathau o ddementia gael effaith barhaol neu dros dro ar alluoedd corfforol a llesiant

6.5 Symptomau seicotig cyffredin a all weithiau ymddangos o ganlyniad i fathau o ddementia

6.6 Sut y gall dementia gelu problemau iechyd sylfaenol

6.7 Sut i liniaru ffactorau risg cynyddol sy'n gysylltiedig â chynnal llesiant corfforol a **meysydd gofal corfforol**

6.8 Yr amrywiaeth o wasanaethau, asiantaethau a gweithwyr proffesiynol sy'n darparu cymorth i unigolion sy'n byw gyda dementia

6.9 Modelau a dulliau a all gael eu defnyddio i gefnogi prosesau cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol ag unigolion sy'n byw gyda dementia

Amrediad

**Pethau sy'n gyffredin:** symptomau cyffredin a chyflwyniad dementia, y cof, arddel barn, iaith ac ymgyfeiriad

**Nam ar y cof:** arwyddocâd cof byrdymor o ran sylweddoli gwybodaeth a thri phrif gategori cof hirdymor, sef cof Semantig (gallu cofio ffeithiau), cof Cyfnodol (gallu cofio digwyddiadau a phrofiadau ac emosiynau) a chof Gweithdrefnol (cof ymhlyg sy'n gysylltiedig â swyddogaeth echddygol fel llofnodi eich enw, gyrru car ac ati.)

**Meysydd gofal corfforol:** rheoli haint, maeth - diet a hylif, symudedd a throsglwyddo diogel, hybu ataliaeth, gofal y croen a hyfywedd meinwe, iechyd y geg, iechyd gweld a chlywed, iechyd rhywiol, asesu cysgu a rheoli poen

---

Deilliant dysgu:

7. Deall anableddau dysgu ac awtistiaeth

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

7

7.1 Ystyr y term 'anabledd dysgu'.

7.2 Mathau gwahanol o anableddau dysgu a'u hachosion posibl

7.3 Cyffredinrwydd:
- unigolion ag anabledd dysgu sy'n awtistig
- unigolion awtistig ag anabledd dysgu

7.4 Beth yw ystyr y term 'awtistiaeth'

7.5 **Damcaniaethau ynghylch awtistiaeth** a'r dystiolaeth gyfyngedig sy'n ymwneud â'r hyn sy'n ei achosi

7.6 Prif nodweddion awtistiaeth ac ystyr y 'triad o namau'

7.7 Pam y gall awtistiaeth fod yn anabledd cudd weithiau, a sut y gall hyn effeithio ar unigolion

7.8 Yr amrywiaeth o wasanaethau, asiantaethau a gweithwyr proffesiynol sy'n darparu cymorth i unigolion ag anableddau dysgu a/neu unigolion awtistig

7.9 Modelau a dulliau a all gael eu defnyddio i gefnogi prosesau cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol ag:
- unigolion ag anabledd dysgu
- unigolion awtistig

## Amrediad

**Damcaniaeth ynghylch awtistiaeth:**biolegol, seicolegol, niwrolegol
**Prif nodweddion awtistiaeth:** anawsterau gyda'r canlynol;cyfathrebu ar lafar a di-eiriau, deall eraill ac ymgysylltu â nhw, deall rheolau cymdeithasol a'r rhyngweithio cymdeithasol a ddisgwylir, dychymyg cymdeithasol a hyblygrwydd meddwl, ymddygiadau ailadroddus, diddordebau cyfyngedig / arbennig, ymaddasu i newid, datrys problemau, ysgogi'r synhwyrau, gorbryder

---

## Deilliant dysgu:

8. Deall nam ar y synhwyrau

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

8

8.1 Effaith bosibl **gwahanol fathau o 'nam ar y synhwyrau'** ar unigolion

8.2 Y termau a ddefnyddir i ddisgrifio nam ar y synhwyrau

8.3 Y cysylltiadau rhwng **cyflyrau/namau** eraill a nam ar y synhwyrau

8.4 Yr amrywiaeth o wasanaethau, asiantaethau a gweithwyr proffesiynol sy'n cefnogi unigolion â nam ar y synhwyrau

8.5 Gofynion penodol a nodir yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a Chodau Ymarfer cysylltiedig ar gyfer asesu a darparu gwasanaethau i unigolion â nam ar y synhwyrau

8.6 Modelau a dulliau a all gael eu defnyddio i gefnogi prosesau cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol ag unigolion â nam ar y synhwyrau

## Amrediad

**Mathau gwahanol o 'nam ar y synhwyrau':**Nam ar y synhwyrau o adeg geni, nam ar y synhwyrau a geir (nam ar y llygaid, nam ar y clyw, nam unigol ar y synhwyrau (arogl, blas, cyffyrddiad, methu teimlo poen), nam cynteddol a propriodderbynnol, byddar a dall, sawl nam ar y synhwyrau, nam deuol ar y synhwyrau)

**Cyflyrau/namau:** anabledd dysgu, awtistiaeth, nam corfforol, dementia, eiddilwch, diabetes

---

## Deilliant dysgu:

9. Deall niwed i'r ymennydd

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

9

9.1 Y **mathau** o anafiadau a geir i'r ymennydd a'u **hachosion**

9.2 **Effeithiau posibl** anaf i'r ymennydd ar unigolion a'u teuluoedd

9.3 Sut y gall diffyg mewnwelediad yn deillio o anaf i'r ymennydd effeithio ar allu unigolyn i gymryd risgiau

9.4 Yr amrywiaeth o wasanaethau, asiantaethau a gweithwyr proffesiynol sy'n cefnogi unigolion â niwed i'r ymennydd

9.5 Modelau a dulliau a all gael eu defnyddio i gefnogi prosesau cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol ag unigolion sy'n byw niwed i'r ymennydd

## Amrediad

**Mathau ac achosion:** anaf trawmatig i'r ymennydd, mathau eraill o anafiadau i'r ymennydd

**Effeithiau posibl:** corfforol, gwybyddol, emosiynol ac ymddygiadol

---

## Deilliant dysgu:

10. Deall defnyddio a chamddefnyddio sylweddau

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

10

10.1 Y mathau o sylweddau y gall unigolion eu defnyddio:

- eu hymddangosiad
- eu heffeithiau
- risgiau
- sut y'u rhoddir
- statws cyfreithiol

10.2 Dosbarthiadau clinigol sylweddau

10.3 Ystyr y term 'camddefnyddio sylweddau'

10.4 Gwahanol **gategorïau o ddefnyddio sylweddau**

10.5 Beth yw ystyr y term 'iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau a welir ar yr un pryd'

10.6 Problemau iechyd meddwl sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau

10.7 Problemau a wynebir gan unigolion â salwch meddwl a phroblemau camddefnyddio sylweddau

10.8 Gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol a all ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth ychwanegol i unigolion yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau, a'r ymyriadau all helpu

Amrediad:
**Categorïau o ddefnyddio sylweddau:** arbrofol, adloniadol, dibynnol

# Uned 443 Deall ffactorau sy'n cyfrannu at yr angen i unigolion a/neu ofalwyr gael gofal a chymorth

Gwybodaeth Ategol

## *Canllawiau cyflwyno*

**Awtistiaeth:** Mae bod yn awtistig yn golygu bod unigolyn yn profi'r byd yn wahanol am ei fod yn effeithio ar y ffordd mae'r unigolyn yn meddwl ac yn teimlo. Mae'r term awtistiaeth yn disgrifio gwahaniaethau ansoddol a namau o ran rhyngweithio cymdeithasol a chyfathrebu cymdeithasol, a gyfunir â diddordebau cyfyngedig ac ymddygiadau haearnaidd ac ailadroddus. Caiff anhwylderau ar y sbectrwm awtistig eu diagnosio mewn plant, pobl ifanc ac oedolion os bydd yr ymddygiadau hyn yn bodloni'r meini prawf a ddiffinnir yn Nosbarthiad Ystadegol Rhyngwladol Clefydau a Phroblemau Iechyd Cysylltiedig (ICD-10) a Llawlyfr Diagnostig ac Ystadegol Anhwylderau Meddwl DSM-IV Pedwerydd Argraffiad (DSM-IV) a'u bod yn cael effaith sylweddol ar ffwythiant. Y prif derm a ddefnyddir yn y diffiniadau hyn yw anhwylder datblygiadol treiddiol, ond bellach defnyddir y term hwn am yn ail ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig. Weithiau defnyddir y term Asperger's (neu Syndrom Asperger's) i ddisgrifio unigolyn ag ASD sydd â deallusrwydd cyfartalog neu uwchlaw'r cyfartaledd.https://www.autism.org.uk/about/what-is/asd.aspx
Mae rhai mathau o broblemau iechyd meddwl y mae pobl ag ASD yn eu profi'n amlach, megis gorbryder:https://www.autism.org.uk/about/health/mental-health.aspx

**Yr amgylchiadau a'r materion penodol a all olygu bod angen i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd/gofalwyr gael cymorth a gwasanaethau:**gallent gynnwys:

- y pwysau emosiynol, cymdeithasol ac amgylcheddol gwahanol a all fod ar deuluoedd
- tlodi
- cyflogaeth
- cysylltiadau rhwng profiad y teuluoedd eu hunain gydol oes a disgwyliadau ar gyfer eu plant
- y cymorth y gallant ei gael gan deulu estynedig, ffrindiau a rhwydweithiau rhianta
- rhwystrau rhag newid
- sut maent yn teimlo am yr angen i gael cymorth
- ethnigrwydd a diwylliant
- salwch corfforol neu salwch meddwl
- ymddygiadau sy'n niweidiol i iechyd
- ymddygiadau gwrthgymdeithasol
- anabledd / anghenion dysgu ychwanegol
- camddefnyddio sylweddau
- gamblo
- heriau o fewn teuluoedd, teulu yn chwalu, neu berthnasoedd personol arwyddocaol eraill
- Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod
- anfantais yn ystod plentyndod
- bod yn ffoadur/ceisiwr lloches
- bod yn ofalwr ifanc/gofalwr sy'n oedolyn

**Mathau gwahanol o 'nam ar y synhwyrau'**
Yn ogystal â'r prif fathau o nam ar y synhwyrau a restrir, gellid hefyd gynnwys y canlynol:

- Gwasgedd
- Cosfa

- Tymheredd
- Poen
- Syched
- Chwant bwyd
- Cyfeiriad
- Amser
- Tyniant cyhyrol
- Propriodderbyniaeth (y gallu i ddweud ble mae rhannau eich corff, o gymharu â rhannau eraill o'r corff)
- Cydbriodderbyniaeth (y gallu i gadw eich balans a synhwyro symudiad y corff yn ôl cyflymiad a newidiadau cyfeiriadol)
- Derbynyddion Ymestyn (Mae'r rhain i'w cael mewn mannau fel yr ysgyfaint, y bledren, y stumog, y pibellau gwaed, a'r llwybr gastroberfeddol)
- Cemodderbynyddion (Mae'r rhain yn sbarduno rhan o'r medwla yn yr ymennydd sy'n ymwneud â chanfod hormonau a chyffuriau a gludir yn y gwaed. Mae hefyd yn ymwneud â'r atgyrch chwydu)

Bydd pobl yn "**anabl**" am nad oes ganddynt fynediad i adeiladau, gwybodaeth, gohebiaeth na chymorth personol, neu oherwydd agweddau pobl eraill.

**Anabledd:** Colli cyfleoedd neu gyfyngu ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn cymdeithas ar sail gyfartal ag eraill oherwydd rhwystrau sefydliadol, amgylcheddol ac agweddol.

**Nam corfforol:** Anaf, salwch neu gyflwr genedigol sy'n cael neu sy'n debygol o gael effaith hirdymor ar ymddangosiad corfforol a/neu gyfyngu ar weithrediadau'r unigolyn sy'n wahanol i'r cyffredin.

**Y ffactorau a all arwain at gyfnod o salwch meddwl:**
Er y gall ffactorau ffordd o fyw gan gynnwys gwaith, diet, cyffuriau a diffyg cwsg oll effeithio ar iechyd meddwl, os bydd unigolion yn profi problem iechyd meddwl mae ffactorau eraill hefyd fel arfer. Gall ffactorau gael eu rhannu'n dri phrif gategori - biolegol, seicolegol ac amgylcheddol/cymdeithasol a gallant gynnwys:

- Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod gan gynnwys emosiynol, corfforol a cham-drin rhywiol, trawma, neu esgeulustod
- trais domestig
- bwlio a brofir yn ystod plentyndod neu fel oedolyn
- ynyswch cymdeithasol neu unigrwydd
- profi gwahaniaethu a stigma
- anfantais gymdeithasol, tlodi neu ddyled
- profedigaeth
- straen difrifol neu hirdymor
- cyflwr iechyd meddwl hirdymor
- diweithdra neu golli swydd
- digartrefedd neu dai gwael/ansefydlog
- gofalu am rywun yn yr hirdymor
- bod yn ffoadur/ceisiwr lloches
- camddefnyddio cyffuriau ac alcohol
- trawma sylweddol, megis: bod mewn digwyddiad difrifol, dioddef trosedd dreisgar, brwydro milwrol, trawma sy'n gysylltiedig â rhyfel (gan gynnwys dadleoli a theulu yn gwahanu)

- achosion corfforol – er enghraifft, gall anaf i'r pen neu gyflwr niwrolegol fel epilepsi gael effaith ar ymddygiad a hwyliau. (Mae'n bwysig cadarnhau nad achosion corfforol posibl sy'n gyfrifol cyn ceisio triniaeth bellach).
- Beichiogrwydd a'r cyfnod ar ôl rhoi genedigaeth
- hunaniaeth o ran rhywedd

Yn 2015, cynhaliodd Iechyd Cyhoeddus Cymru astudiaeth o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yng Nghymru, a ddangosodd fod pobl sydd wedi cael pedwar neu fwy o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn llawer mwy tebygol o ddatblygu iselder, gorbryder a seicosis fel oedolyn na'r boblogaeth gyffredinol. Mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn cynnwys dioddef cam-drin corfforol, emosiynol a rhywiol neu dyfu i fyny ar aelwyd lle ceir trais domestig, iechyd meddwl gwael neu weithgarwch troseddol.
http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/Cymraeg%20-%20ACE%20Chronic%20Disease%20report%20%28W5%29%20%282%29.pdf

**Asesu ar y cyd** - Mae gan ofalwyr hawl i'w hanghenion penodol gael eu hasesu ar wahân i'r sawl maent yn gofalu amdano. Fodd bynnag, gall awdurdod lleol gyfuno asesiadau o'r gofalwr a'r sawl sy'n derbyn gofal os bydd y ddau barti yn dymuno hyn. Mae'n dal i fod yn bwysig diwallu anghenion penodol a gwahanol y gofalwr a'r unigolyn sy'n derbyn gofal.

**Diffyg mewnwelediad:** ei chael hi'n anodd deall a dehongli eich ymddygiad a'ch teimladau eich hun, a rhai pobl eraill. Gall fod gan yr unigolyn safbwyntiau afrealistig amdano'i hun ac efallai na fydd yn gwerthfawrogi'r ffaith bod ganddo broblemau penodol. Gall hyn arwain at bennu nodau afrealistig a all arwain at fethiant a rhwystredigaeth, neu gymryd risgiau anniogel am nad yw'r unigolyn yn gallu cydnabod y risg ei hun

**Problemau iechyd meddwl**: Ar unrhyw un adeg bydd 1 o bob 4 person yn y DU yn profi salwch meddwl. Nid oes gan bob unigolyn sy'n profi salwch meddwl anhwylder meddwl wedi'i ddiagnosio. Mae sawl diagnosis, sydd â'u meini prawf diagnostig eu hunain a ddosbarthwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd:https://www.who.int/classifications/icd/icdonlineversions/en/
Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- caethiwed, gan gynnwys bod yn gaeth i gamblo
- ADCG
- anhwylderau gorbryder gan gynnwys anhwylder gorfodaeth obsesiynol
- anhwylder deubegynol
- dysmorffia'r corff
- hunan-niwed bwriadol
- iselder
- anhwylderau datgysylltiol
- anhwylderau bwyta
- anhwylderau panig
- anhwylderau personoliaeth gan gynnwys bod yn emosiynol ansefydlog/anhwylder personoliaeth ar y ffin
- ffobiâu
- iselder ôl-eni
- seicosis ôl-eni
- anhwylder straen wedi trawma
- seicosis
- anhwylder sgitsoaffeithiol
- sgitsoffrenia
- anhwylder affeithiol tymhorol

Nid yw pawb yn cytuno bod defnyddio diagnosis i ddeall neu ddisgrifio trallod meddwl a salwch meddwl yn ddefnyddiol. Ymhlith y safbwyntiau eraill mae:

- Cymdeithasol Seicolegol Prydain: Power, Threat Meaning Framework https://www.bps.org.uk/news-and-policy/introducing-power-threat-meaning-framework
- Canolfan Ragoriaeth Iechyd Meddwl Rhyngddisgyblaethol: Social Perspectives on Mental Distress https://www.birmingham.ac.uk/research/activity/social-policy/ceimh/film-resources/social-perspectives-mental-distress.aspx
- Shaping Our Lives: Social Model of Madness and Distress https://www.shapingourlives.org.uk/wp-content/uploads/2016/05/FROM-MENTAL-ILLNESS-PDF-2.pdf

**Salwch meddwl:** Nid oes consensws o ran y ffordd orau o ddisgrifio salwch meddwl. Gallech glywed y termau: problemau iechyd meddwl, salwch meddwl, trallod meddwl, anhwylder meddwl ac eraill. Fel rheol mae'n well gofyn i'r sawl sy'n profi salwch meddwl ddisgrifio ei deimladau a sut y byddai'n hoffi i hyn gael ei ddisgrifio.
Caiff trallod meddwl a salwch meddwl eu profi gan bobl mewn ffyrdd unigryw ac felly mae'n hollbwysig gwrando ar yr unigolyn a'i stori, a'r hyn sy'n digwydd yn ei fywyd ar hyn o bryd. Mae hefyd yn bwysig cydnabod y gall diwylliant a threftadaeth unigolyn olygu ei fod yn mynegi trallod mewn ffyrdd gwahanol, yn yr un modd ag ystyried profiadau bywyd unigolyn, ei gredoau crefyddol/ysbrydol, oedran, rhywedd, rhywioldeb ac ati.

Byddai **mathau eraill o anaf i'r ymennydd** yn cynnwys: tiwmor, strôc, gwaelif ar yr ymennydd, llid yr ymennydd

**Effaith bosibl cael gofal a chymorth:** gallai'r effeithiau cadarnhaol gynnwys: cefnogaeth i gymryd rhan mewn amrywiaeth werthfawr o weithgareddau ystyrlon, meithrin sgiliau, gall ailalluogi, cefnogi annibyniaeth, lleddfu unigrwydd ac ynyswch, seibiant/egwyl i'r gofalwyr, cymorth ymarferol i deuluoedd/gofalwyr, diwallu anghenion gofal iechyd, mesurau diogelu. Gallai'r effeithiau negyddol gynnwys: teimlo ymyrraeth, colli sgiliau, colli rheolaeth, colli rôl werthfawr, colli hunaniaeth a'r ymdeimlad o hunan, teimlo euogrwydd

**Effeithiau posibl anaf i'r ymennydd**
Y corfforol i gynnwys:

- Symudedd
- Sbastigedd
- Gwendid neu baralysis
- Atacsia
- Nam ar y synhwyrau
- Lludded
- Ei chael hi'n anodd siarad
- Epilepsi
- Anghydbwysedd o ran yr hormonau

Gwybyddol i gynnwys:

- Problemau gyda'r cof
- Colli iaith
- Problemau gyda sgiliau gweledol – canfyddiadol
- Cymhelliant
- Gallu canolbwyntio llai
- Gallu prosesu gwybodaeth i raddau llai
- Ailadrodd
- Rhesymeg ddiffygiol

- Mewnwelediad ac empathi diffygiol

Emosiynol ac ymddygiadol i gynnwys:

- Newidiadau mewn personoliaeth
- Newid mewn hwyliau
- Iselder a theimlo colled
- Pryder
- Rhwystredigaeth a dicter
- Anhwylder straen wedi trawma
- Diluddiannu
- Byrbwylltra
- Anniddigrwydd, cynnwrf ac ymosodedd
- Apathi a cholli mentergarwch
- Egosentrigedd

**Amrywiaeth o wasanaethau a chymorth i deuluoedd:** gallent gynnwys - iechyd, asiantaethau tai, Awdurdod Lleol, addysg, gwasanaethau cyfiawnder (ee yr heddlu, tîm troseddwyr ifanc, gwasanaethau prawf) sefydliadau'r trydydd sector (ee Action for Children, Canolfan Cyngor ar Bopeth, NSPCC, Barnados, Cymorth i Fenywod, CAIS, Shelter Cymru), cynghorwyr budd-daliadau, eiriolwyr teuluoedd, gweithwyr gofal plant, gweithwyr gofal cymdeithasol, gweithwyr cymdeithasol

**Amrywiaeth o wasanaethau a chymorth ym maes salwch meddwl:** gallent gynnwys - gwybodaeth a chyngor ar-lein, technoleg gynorthwyol electronig, grwpiau cymunedol mynediad agored; gwasanaethau lefel sylfaenol gan gynnwys hybu iechyd, meddyg teulu, canolfannau llesiant yn y gymuned, gwasanaethau llesiant myfyrwyr, cymorth trydydd sector; gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol, gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd, gan gynnwys gwasanaethau arbenigol; gwasanaethau trydyddol gan gynnwys fforensig .Mae amrywiaeth o gymorth ar gael a all fod yn briodol i rywun sy'n profi trallod meddwl neu salwch meddwl. Mae gwrando ar yr unigolyn a'i gyfeirio yn hollbwysig ar bob cam o'r ffordd.

- Trafod â theulu a ffrindiau, a chael cefnogaeth ganddynt, ynghyd â chyswllt ysgol, gwasanaeth llesiant myfyrwyr neu raglen Cynorthwyo Cyflogeion yn y gweithle
- gweld y meddyg teulu, gwybodaeth ar-lein, mynychu grwpiau mynediad agored yn y gymuned, gweithgareddau iechyd a llesiant, cyngor a chymorth gyda chyllid neu lety
- Sefydliadau trydydd sector yn rhoi cymorth ymarferol megis help i reoli dyledion neu ddod o hyd i lety addas. Gallant hefyd fod ynghlwm wrth ddarparu hunan-gymorth dan arweiniad a chynnig gwasanaethau cwnsela
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Sylfaenol, seicoaddysg, hunangymorth dan arweiniad, grwpiau sy'n addysgu ac yn cefnogi unigolion i reoli trallod a deall emosiynau, Therapi Ymddygiadol Gwybyddol, Therapi Ymddygiad Dialectegol, therapi seicolegol, therapi teuluol, cwnsela, therapi sy'n canolbwyntio ar drawma, ymwybyddiaeth ofalgar a therapïau siarad eraill
- Gall gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd hefyd gynnig amrywiaeth o therapïau, gofal a chymorth gan weithwyr iechyd meddwl proffesiynol, cyngor a rheoli meddyginiaethau cymhleth, cynllunio mewn argyfwng ac ymateb mewn argyfwng
- Weithiau bydd angen derbyn rhywun i'r ysbyty yn ffurfiol neu'n anffurfiol er mwyn ei gadw'n ddiogel a/neu ei alluogi i gael y gofal, y driniaeth a'r cymorth sydd eu hangen arno. Yn y lleoliad hwn, gellir rhoi triniaeth megis meddyginiaethau cymhleth sy'n gofyn am lefelau uchel o fonitro
- Llety â chymorth, lleoliadau preswyl neu gymorth arbenigol yn y cartref er mwyn galluogi unigolyn i gael cyfnodau o ailalluogi ac adsefydlu.

**Amrywiaeth o wasanaethau a chymorth ym maes nam ar y synhwyrau:** gallent gynnwys

- Gwasanaethau Cymdeithasol (gan gynnwys technoleg gynorthwyol a gomisiynir gan daliadau uniongyrchol)
- Awdioleg
- Eiriolaeth
- Cymorth teuluol (nam ar y golwg neu'r clyw)
- Gweithwyr cyfathrebu ac iaith proffesiynol
- Sefydliadau trydydd sector/gwirfoddol

Swyddogion Adsefydlu/ Sefydlu ar gyfer:

- Hyfforddiant sgiliau byw beunyddiol
- Hyfforddiant symudedd (hyfforddiant tywysydd â golwg, hyfforddiant ffon hir)
- Sgiliau cyfathrebu (addysgu braille/lleuad, TG)
- Archwiliadau mynediad
- Cymorth a hyfforddiant emosiynol.
- Ymwybyddiaeth Iechyd a Diogelwch (gadael bagiau mewn coridorau ac ati)

**Y rhesymau pam y gall fod angen i blant ddefnyddio gwasanaethau a/neu lleoliadau arbenigol:**gallent gynnwys plant sydd wedi profi cam-drin, trawma a/neu esgeulustod, babanod a phlant bach, babanod sy'n diddyfnu o sylweddau, plant â syndrom alcohol y ffoetws, plant sy'n profi anawsterau iechyd meddwl, plant sy'n defnyddio sylweddau, plant ag anableddau, plant y camfanteisir arnynt yn droseddol neu'n rhywiol, plant sy'n profi caethwasiaeth fodern, plant sy'n ceisio lloches nad oes oedolyn gyda nhw, plant â hanes rhywiol cymhleth, plant a leolir ar draws y ffin neu'r tu allan i'r wlad, plant sydd wedi symud droeon, ac eraill.

**Lleoliadau arbenigol:**Lleoliadau rhiant a phlentyn, gofal therapiwtig, gofal egwyl fer, llety â chymorth, 'pan fydda i'n barod', cymorth teuluol/ymyrraeth deuluol uwch, gofal cartref, gofal a rennir, asesiadau preswyl ar gyfer rhieni a phlant, argyfwng, remand a chyfiawnder ieuenctid, llety diogel

**Triad o namau:** anawsterau parhaus gyda chyfathrebu cymdeithasol a rhyngweithio cymdeithasol, patrymau ymddwyn cyfyngol ac ailadroddus, gweithgareddau neu ddiddordebau sy'n cyfyngu ar fywyd bob dydd, neu'n ei lesteirio, a sensitifrwydd synhwyraidd

## *Adnoddau*

- **https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/gwaith-da-fframwaith-dysgu-a-datblygu-dementia-i-gymru**
- **https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/gweledigaeth-genedlaethol-cymru-ar-ddementia**
- **https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/dementia-mwy-na-dim-ond-collir-cof**
- **http://dementia-wellbeing.org/adi-conference/what-do-we-about-the-efficacy-of-a-social-movement-like-dementia-friends/**
- **https://gofalcymdeithasol.cymru/gwella-gwasanaethau/pobl-%C3%A2-dementia**
- **https://www.alzheimers.org.uk/**
- **https://www.nice.org.uk/guidance/conditions-and-diseases/mental-health-and-behavioural-conditions/dementia**
- www.ASDinfoWales.co.uk (gwefan Cymru gyfan sy'n cynnwys gwybodaeth, adnoddau a deunyddiau hyfforddi AM DDIM)
- Canllaw NICE CG142: Autism in adults: diagnosis and management [http://www.nice.org.uk/guidance/cg142]
- Canllaw NICE CG128, Autism in under 19s: recognition, referral and diagnosis. [www.nice.org.uk/guidance/cg12]

- Action on Hearing Loss Cymru
**https://www.actiononhearingloss.org.uk/about-us/our-work-across-the-uk/wales/?sc_lang=cy**
- ADASS (2016) Position statement on vision rehabilitation
http://www.vision2020uk.org.uk/adass-updates-position-statement-on-vision-rehabilitation-in-collaboration-with-vision-2020-uk-and-rnib/
- Undeb Cenedlaethol Dehonglwyr Iaith
Arwyddion **https://nubsli.com/guidance/interpreter-awareness-guide/**
- RNIB Cymru **http://www.rnib.org.uk/wales-cymru-1**
- RNIB (2016) 10 Principles of Good Practice in Vision Rehabilitation **http://www.rnib.org.uk/professionals-social-care-professionals-complex-needs-social-care/rehabilitation-workers**
- Sense Cymru **https://www.sense.org.uk/publications-categories/sense-cymru**
- Hyb Gwybodaeth a Dysgu Gofal Cymdeithasol Cymru – Gweithio gyda Phobl Fyddarddall (adnodd wedi'i ddatblygu gan SENSE Cymru) **https://gofalcymdeithasol.cymru/hub/hub-resource-sub-categories/gweithio-gyda-phobl-fyddarddall**
- Safonau Cymru Gyfan: **https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/adnodd-gwybodaeth-cydraddoldeb-a-hawliau-dynol/**
- Headway – y gymdeithas anafiadau i'r ymennydd **www.headway.org.uk**
- Adroddiadau ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod – **http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/88504**
- Gwasanaethau plant SCIE https://www.scie.org.uk/children/
- Rhwydwaith maethu https://www.thefosteringnetwork.org.uk/about/about-us/our-work-in-wales
- Sefydliad proffesiynol addysgeg gymdeithasol https://sppa-uk.org/
- Dechrau'n Deg – Canllawiau ar Gymorth Rhianta **https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/cyp/170519-parenting-guidance-cy.pdf**
- Barnardo's – Promoting Resilience: A Review of Effective Strategies for Child Care Services, Dr. Tony Newman, Barnardo's Research and Development, 2002 **http://www.barnardos.org.uk/resilsum.pdf**
- Research into Practice Building emotional resilience in the children and families workforce – an evidence-informed approach: Strategic Briefing (2016) gan Gail Kinman a Louise Grant **https://www.rip.org.uk/resources/publications/strategic-briefings/building-emotional-resilience-in-the-children-and-families-workforce--an-evidenceinformed-approach-strategic-briefing-2016**
- Parenting and resilience, Malcolm Hill, Anne Stafford, Peter Seaman, Nicola Ross a Brigid Daniel, Sefydliad Joseph Rowntree, 2007, **https://www.jrf.org.uk/sites/default/files/jrf/migrated/files/parenting-resilience-children.pdf**
- Rhianta yng Nghymru: Canllawiau ar ymgysylltiad a chymorth Llywodraeth Cymru, 2014 **https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/cyp/140910-parenting-in-wales-guidance-cy.pdf**
- Amddifadedd chwarae (2003) **https://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/amddifadiad%20chwarae.pdf**
- Chwarae: iechyd a lles (2012) **https://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/chwarae%20iechyd%20a%20lles.pdf**

# Uned 444 Cefnogi'r broses asesu a chynllunio gofal a chymorth

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 4 |
| **ODA:** | 27 |
| **Credyd:** | 40 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gefnogi'r gwaith o asesu a chynllunio gofal a chymorth unigolion a/neu ofalwyr.<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae 'unigolyn' yn cyfeirio at oedolion neu blant a phobl ifanc. |

## Deilliant dysgu:

1. Deall proses a gofynion asesu a chynllunio gofal a chymorth

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol a lleol, a chanllawiau sy'n ymwneud ag asesu anghenion unigolion a gofalwyr
1.2 Sut y caiff yr adnodd asesu a chymhwysedd cenedlaethol ei ddefnyddio ar gyfer asesiadau
1.3 Y rhesymau dros y 'Set Ddata Graidd Ofynnol Genedlaethol' a sut y dylai gael ei defnyddio
1.4 Pwysigrwydd y pum elfen asesu
1.5 **Elfennau allweddol** asesiad o angen
1.6 **Prif ffocws** asesu
1.7 Beth yw ystyr asesiad 'a arweinir gan ganlyniadau'
1.8 Hawliau unigolion a gofalwyr i gael cymorth eirioli ar gyfer eu hasesiad
1.9 Gofynion darparu ac adolygu cynlluniau gofal a chymorth
1.10 Egwyddorion, fformat a chynnwys cynlluniau gofal a chymorth
1.11 Sut y bernir anghenion gofal a chymorth cymwys
1.12 Deddfwriaeth sy'n ymwneud â 'phreswyliaeth gyffredin' ac effaith hyn ar ofal a chymorth unigolion
1.13 Nodau deddfwriaeth a pholisïau o ran y defnydd o daliadau uniongyrchol ar gyfer gofal a chymorth
1.14 Gofynion defnyddio taliadau uniongyrchol
1.15 Yr amrywiaeth o wasanaethau a dulliau cyflenwi y gellir defnyddio taliadau uniongyrchol ar eu cyfer
1.16 Anawsterau a gwrthdaro posibl sy'n ymwneud â defnyddio taliadau uniongyrchol a sut y gellir mynd i'r afael â'r rhain

1.17 Y cymorth sydd ar gael i ddefnyddio taliadau uniongyrchol
1.18 Trefniadau codi tâl ar gyfer gofal a chymorth cymwys mewn ardal leol
1.19 Cyfrifoldebau awdurdodau lleol am asesu oedolion a phlant yn yr ystad ddiogel
1.20 Lle y gall asesiad integredig/arbenigol fod yn ofynnol a phwy all fod ynghlwm wrth hyn

## Amrediad

**Elfennau allweddol:** cydgynhyrchu, dull seiliedig ar gryfderau, canolbwyntio ar ganlyniadau

**Prif ffocws:** adeiladu ar gryfderau ac asedau unigolyn gan gynnwys ei alluoedd a theuluoedd/cymunedau

---

## Deilliant dysgu:

2. Sut i gynnal sgyrsiau ysyrlon ag unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr ynghylch yr hyn sy'n bwysig a'r cymorth sydd ei angen arnynt

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

2

2.1 Yr amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu all gael eu defnyddio
2.2 Y ffactorau i'w hystyried ar gyfer cyfathrebu effeithiol
2.3 Sut y gall profiadau blaenorol, anabledd/cyflyrau ac iaith gyntaf ddylanwadu ar barodrwydd unigolyn i gyfathrebu
2.4 Y dulliau a all gael eu defnyddio i weithredu'r 'Cynnig Rhagweithiol'
2.5 Sut i gydnabod pan ddefnyddir ymddygiad fel ffordd o gyfathrebu
2.6 Ffynonellau gwybodaeth, cyngor a chymorth cyfathrebu
2.7 Protocolau ar gyfer cael a chadarnhau cydsyniad:

- unigolion a theuluoedd/gofalwyr wrth rannu gwybodaeth â gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol
- unigolion wrth rannu gwybodaeth â theuluoedd/gofalwyr

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n

2.8 Defnyddio ac addasu dulliau cyfathrebu sy'n:
  - helpu unigolion a/neu ofalwyr i fynegi'r hyn sy'n bwysig iddynt
  - priodol o ran oedran a gallu

2.9 Ymdrin â ffactorau a all rwystro cyfathrebu a chymryd rhan yn y broses asesu
2.10 Sicrhau y cyfathrebir mewn ffyrdd sy'n:
  - cydnabod cyfrinachedd
  - dangos parch tuag at unigolion a/neu ofalwyr
  - ystyried barn, dymuniadau, dewisiadau ac anghenion unigolion a/neu ofalwyr yn sensitif
  - osgoi stigmateiddio neu atgyfnerthu canfyddiadau negyddol

---

## Deilliant dysgu:

3. Cefnogi'r broses asesu yn ôl eich rôl a'ch cyfrifoldebau eich hun, deddfwriaeth a Chodau Ymarfer

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

3

3.1 Ffyrdd o weithio i feithrin cydberthnasau cadarnhaol a chefnogol ag unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr gan gynnwys dysgu am eu bywydau beunyddiol, hanes, diwylliant, dewisiadau, dymuniadau ac anghenion

3.2 **Rhwystrau posibl** i gael gofal a chymorth a sut i'w goresgyn

3.3 Rhesymau pam y gall unigolion a/neu ofalwyr gelu eu hanghenion gofal a chymorth gwirioneddol a sut i archwilio'r rhain yn sensitif

3.4 Sut y gall barn, dymuniadau a dewisiadau newid wrth i unigolion fynd drwy'r broses asesu a chynllunio

3.5 Pwysigrwydd defnyddio dulliau asesu cydgynhyrchiol sy'n:
- person/plentyn-ganolog
- seiliedig ar hawliau
- seiliedig ar gryfderau

3.6 Pwysigrwydd cynnwys teuluoedd/gofalwyr yn y broses asesu

3.7 Heriau a materion sensitif a all ddigwydd rhwng gofalwyr ac unigolion sy'n ymwneud â:
- dynameg y teulu
- anghydbwysedd o ran pŵer
- gwahaniaeth barn
- mentro mewn ffordd gadarnhaol o gymharu ag osgoi risg
- cymhlethdodau wrth ddiwallu anghenion yr unigolyn a'r gofalwr

3.8 Strategaethau a all gael eu defnyddio i reoli heriau a materion sensitif

3.9 Pwysigrwydd sicrhau na fernir amgylchiadau personol unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr na'r ffordd maent am fyw eu bywydau

3.10 Sut mae galluedd meddyliol a phenderfyniadau budd pennaf yn ymwneud â'r broses asesu

3.11 Sut i bennu barn, dymuniadau a dewisiadau unigolion lle na allant gyfathrebu ar lafar neu lle nad oes ganddynt alluedd meddyliol

3.12 Ystyr cynllunio 'ymlaen llaw' a phryd a pham y dylid ystyried hyn fel rhan o'r broses asesu

3.13 Sut i nodi anghenion cymwys ac anghymwys wrth cyfrannu neu ymgymryd at asesiadau

3.14 Sut i nodi ffynonellau gwybodaeth a chymorth i ddiwallu anghenion a nodwyd, gan gynnwys technoleg gynorthwyol electronig

3.15 **Opsiynau cyllido** posibl ar gyfer gofal a chymorth

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.16 Pennu eich rôl chi a rôl eraill yn y broses asesu

3.17 Cynnal a chofnodi asesiadau yn unol â gofynion sefydliadol a deddfwriaethol a Chodau Ymarfer cysylltiedig gan nodi anghenion sy'n:
- gymwys
- anghymwys

3.18 Meithrin perthnasoedd cadarnhaol a chefnogol ag unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr

3.19 Defnyddio dulliau seiliedig ar hawliau a chryfderau i cyfrannu neu ymgymryd at asesiadau sy'n helpu unigolion a/neu ofalwyr i:
- leisio barn a chael rheolaeth dros benderfyniadau ynghylch eu gofal a'u cymorth a'r ffordd y mae eu gwasanaeth yn cael ei gynllunio a'i ddarparu
- cydnabod effaith bosibl y cyfnodau pontio y gallant fod yn eu profi
- nodi'r canlyniadau maent am eu cyflawni a'r ffordd orau o'u helpu i wneud hyn

- nodi a chydnabod eu hasedau, cryfderau a sgiliau gan gynnwys rhwydweithiau cymunedol, teulu a ffrindiau
- datblygu a chynnal sgiliau sy'n eu helpu i gymryd rhan mewn gweithgareddau, profiadau a thasgau beunyddiol sy'n hyrwyddo annibyniaeth
- archwilio'r defnydd o dechnoleg gynorthwyol electronig a all gyfrannu at gyflawni canlyniadau a nodir
- cydbwyso eu hawliau, cyfrifoldebau a risgiau
- cynnal perthnasoedd presennol a datblygu rhai newydd

3.20 Defnyddio strategaethau i reoli gwrthdaro buddiannau, gwahaniaeth barn a chyfyng gyngor a all godi rhwng unigolion, teuluoedd/gofalwyr ac eraill ynghylch y risgiau a'r canlyniadau y mae unigolion am eu cyflawni

3.21 Defnyddio strategaethau i reoli'r heriau a'r materion sensitif a all godi rhwng y gofalwr a'r unigolyn

3.22 Rhoi gwybodaeth i unigolion a/neu ofalwyr am **opsiynau cyllido** o ran eu gofal a'u cymorth

3.23 Helpu unigolion a/neu ofalwyr i archwilio'r opsiwn cyllido gorau er mwyn cyflawni'r canlyniadau a nodwyd a diwallu eu hanghenion gan gynnwys cyfeirio at gyngor ariannol arbenigol

3.24 Sicrhau bod eich ymarfer eich hun yn hyrwyddo parch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o ran unigolion a/neu ofalwyr

3.25 Herio gwahaniaethu, rhagfarn ac agweddau negyddol tuag at unigolion a/neu ofalwyr

## Amrediad

**Rhwystrau posibl:** unigol, corfforol, emosiynol

**Opsiynau cyllido:** asesiadau ariannol, trefniadau tâl awdurdodau lleol, hunangyllido, taliadau uniongyrchol, gofal iechyd parhaus, elfen nyrsio gofal iechyd mewn gwasanaethau cartref gofal

---

## Deilliant dysgu:

4. Datblygu cynlluniau gofal a chymorth yn seiliedig ar asesiadau a chanlyniadau cytûn

## Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n :

4

4.1 Defnyddio asesiadau a lunnir ar y cyd ag unigolion a/neu ofalwyr er mwyn datblygu cynlluniau gofal a chymorth seiliedig ar gryfderau, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau sy'n nodi:

- cymorth gan deuluoedd, ffrindiau, rhwydweithiau a chymunedau
- risgiau posibl a sut y gall y rhain gael eu rheoli

4.2 Sicrhau bod y cynlluniau yn cynnwys elfen o hyblygrwydd er mwyn cefnogi canlyniadau cadarnhaol

4.3 Sicrhau bod cynlluniau yn cael eu cofnodi ac ar gael mewn fformatau hygyrch i unigolion a/neu ofalwyr

4.4 Sicrhau bod unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr yn fodlon ar gynnwys y cynllun gofal a chymorth

4.5 Cytuno ar gamau gweithredu, rolau, cyfrifoldebau ac amserlenni ar gyfer cwblhau'r rhain gydag unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr

4.6 Helpu unigolion a/neu deuluoedd/gofalwyr i ddeall sut y caiff y cynllun ei roi ar waith

4.7 Cytuno ar sut y caiff y cynllun ei fonitro, adolygu ac addasu er mwyn diwallu anghenion newidiol

---

Deilliant dysgu:

5. Cynnal adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth yn ôl eich rôl a'ch cyfrifoldebau eich hun, ynghyd â deddfwriaeth a Chodau Ymarfer

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

5

5.1 Gofynion deddfwriaethol adolygu cynlluniau gofal a chymorth

5.2 Y broses a ddylai gael ei dilyn i adolygu cynlluniau gofal a chymorth

5.3 Dulliau a all gael eu defnyddio i helpu unigolion i werthuso'r broses o gyflawni canlyniadau a nodir yn y cynllun gofal a chymorth

Rydych yn gweithio mewn ffyrdd sy'n

5.4 Pennu eich rôl chi a rôl eraill yn y broses adolygu

5.5 Defnyddio dulliau cydgynhyrchiol i gwblhau adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth yn ôl gofynion sefydliadol a deddfwriaethol, Codau Ymarfer a'ch rôl a'ch cyfrifoldebau eich hun

5.6 Helpu unigolion a/neu ofalwyr i werthuso'r broses o gyflawni canlyniadau a nodir yn eu cynlluniau gofal a chymorth

5.7 Ystyried unrhyw newidiadau i farn, dymuniadau, dewisiadau ac anghenion unigolion a/neu ofalwyr a chytuno ar y ffordd orau o'u diwallu

5.8 Ceisio adborth gan ddarparwyr gwasanaeth ar gyflawni canlyniadau ac unrhyw newidiadau a nodir

5.9 Sicrhewch fod:

- y cynlluniau a adolygir yn cael eu cofnodi ac ar gael mewn fformatau hygyrch i unigolion a/neu ofalwyr
- unigolion a/neu ofalwyr yn fodlon ar unrhyw newidiadau a wneir

5.10 Sicrhau bod cynlluniau diwygiedig yn cael eu rhannu'n briodol â darparwyr gwasanaeth yn unol â phrotocolau cytûn o ran cyfrinachedd

---

# Uned 444 Cefnogi'r broses asesu a chynllunio gofal a chymorth

## Gwybodaeth Ategol

### *Canllawiau cyflwyno*

Mae'r cyfeiriadau yn y canllawiau at 'y Ddeddf' yn ymwneud â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**Fformatau hygyrch:** yn cynnwys dewis iaith a iaith ddealladwy, sy'n briodol o ran oedran a gallu

**Gofalwyr/gofalwyr ifanc** - Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (y Ddeddf) yn diffinio gofalwr fel "person sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl".

Mae'r diffiniad yn eang ac yn cynnwys gofalwyr sy'n oedolion, gofalwyr ifanc, gofalwyr sy'n oedolion ifanc, gofalwyr sy'n rhieni (sy'n gofalu am blentyn anabl) a gofalwyr brechdan fel y'u gelwir (sef pobl sy'n gofalu am berson/perthynas hŷn yn ogystal â magu teulu).

Yn ôl Llywodraeth Cymru mae gofalwyr ifanc yn ofalwyr o dan 18 oed. Er bod rhywun o dan 18 oed yn dal i gael ei ystyried yn ofalwr bydd ei hawliau fel gofalwr ifanc yn wahanol i rai oedolyn ar adegau.

Yn ôl y Cod Ymarfer ar gyfer Rhan 3 o'r Ddeddf mae gofalwyr sy'n oedolion ifanc rhwng 16 a 25 oed.

Ni fydd person yn ofalwr o dan y Ddeddf os yw'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal (a) o dan gontract, neu (b) fel gwaith gwirfoddol.

**Codi ffioedd ac asesiad ariannol:**

Gwnaeth Rhan 5 o'r Ddeddf ddisodli deddfwriaeth flaenorol ac mae'n galluogi awdurdodau lleol i godi ffioedd am y gofal a chymorth preswyl a di-breswyl maent yn ei ddarparu neu'n ei drefnu i oedolion. Cyflwynodd y Ddeddf un set o drefniadau codi ffioedd ac asesu ariannol yn hytrach na'r trefniadau gwahanol gynt o ran ffioedd am ofal a chymorth preswyl a di-breswyl. Caiff uchafswm wythnosol a 'byffer' eu cynnal, yn ogystal â therfyn cyfalaf i bennu pwy sy'n talu cost lawn eu gofal preswyl eu hunain.

Mae'r rheoliadau yn atal codi ffioedd ar blant a phobl ifanc o dan 18 oed (neu eu rhieni neu warcheidwaid) am y gofal a'r cymorth a geir o dan ran 4 o'r Ddeddf.

Mae'r Ddeddf yn gwneud cynlluniau talu gohiriedig yn orfodol ar gyfer gofal preswyl. Mae cytundebau talu gohiriedig yn galluogi person i ohirio'r angen i werthu ei eiddo (neu ased arall) er mwyn talu costau ei ofal preswyl tan adeg diweddarach sy'n fwy priodol iddo. Yn lle hynny, ei awdurdod lleol sy'n talu am ei ofal preswyl gyda'r costau yn cael eu gwarantu yn erbyn gwerth yr eiddo drwy osod arwystl morgais cyfreithiol cyntaf arno.

Gall awdurdod lleol godi cyfradd sefydlog lefel isel am waith ataliol neu gymorth a roddir i oedolion er nid ar gyfer gwasanaethau ataliol i blant. Noder na ellir codi ffioedd am ddarparu gwybodaeth na chyngor o dan y Ddeddf, ond gellir codi ffi cyfradd sefydlog am gymorth.

Mae'r Ddeddf yn nodi'r unigolion na ellir codi ffi arnynt ar hyn o bryd a'r mathau o ofal a chymorth ar gyfer oedolion lle na ellir codi ffi e.e. chwe wythnos o ofal am ddim mewn cartref ar ôl treulio amser yn yr ysbyty.

**Taliadau uniongyrchol:**

Yn ôl y Ddeddf mae taliadau uniongyrchol yn gwella gallu unigolyn i gael dewis a rheolaeth wirioneddol o ran y ffordd y gellir cyflawni ei ganlyniadau personol: mae'n annog eu defnyddio. Lle nodwyd anghenion gofal a chymorth cymwys, neu anghenion cymorth yn achos gofalwr, a bod yr unigolyn hwnnw, neu ei gynrychiolydd, yn mynegi dyhead i gael un, rhaid sicrhau bod taliadau uniongyrchol ar gael ym mhob achos lle maent yn golygu y gellir cyflawni canlyniadau personol.

Bwriedir i daliadau uniongyrchol gael eu defnyddio mewn ffordd hyblyg ac arloesol, ac ni ddylai fod unrhyw gyfyniad afresymol ar eu defnyddio ar yr amod y gwneir hynny i ddiwallu angen cymwys am ofal a chymorth. Mae'r Ddeddf yn dileu rhai eithriadau cyfredol o ran rhai dosbarthiadau o daliadau (gyda mesurau diogelu priodol).

Newid allweddol yw y gall taliadau uniongyrchol gael eu darparu ar gyfer unrhyw angen a nodir am gymorth y dylai awdurdod lleol ei ddiwallu gan gynnwys, yn wahanol i'r sefyllfa flaenorol, leoliadau preswyl hirdymor.

Bydd oedolyn, plentyn / ei deulu neu ofalwr yn gallu defnyddio ei daliadau uniongyrchol i brynu ei ofal a'i gymorth yn uniongyrchol oddi wrth ei awdurdod lleol os yw'n dymuno (gwaharddwyd hyn o'r blaen).

Roedd y rheoliadau blaenorol o ran taliadau uniongyrchol yn caniatáu cyflogi perthnasau agos a oedd yn byw ar yr un aelwyd ar yr amod bod yr awdurdod lleol yn cytuno bod angen gwneud hyn er mwyn bodloni gofynion yr unigolyn. Bellach caiff hyn ei weld a'i fynegi'n fwy cadarnhaol ar yr amod nad yw'r awdurdod lleol yn amau a yw'r unigolyn am weld trefniant o'r fath ar waith a'i fod yn cael sicrwydd y caiff canlyniadau personol yr unigolyn eu cyflawni yn ei sgil.

Mae llawer o bobl yn defnyddio'r taliad uniongyrchol i ddod yn gyflogwr e.e. drwy gyflogi cynorthwyydd personol. Os felly, dylai'r awdurdod lleol roi cyngor clir i bobl o ran eu cyfrifoldebau wrth reoli taliadau uniongyrchol.

Yn gyffredinol, dylai pobl gael cymorth i barhau i allu derbyn taliad uniongyrchol lle na allant neu lle nad ydynt yn barod i reoli un.

**Cymhwysedd am ofal a chymorth:**
Bydd gan yr unigolyn angen cymwys am ofal a chymorth os bydd asesiad yn nodi mai dim ond os yw'r awdurdod lleol yn gweithio gydag ef i baratoi cynllun gofal a chymorth, neu gynllun cymorth i ofalwr, ar y cyd ac yn sicrhau bod y cynllun yn cael ei gyflawni, y gall oresgyn rhwystrau i gyflawni ei ganlyniadau personol.

Os na all darparu gofal a chymorth helpu'r unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau personol ni fydd unrhyw gwestiwn ynghylch cymhwysedd. Ni fwriedir i feini prawf cymhwysedd wneud i wasanaethau gofal a chymorth awdurdodau lleol ymdrin â heriau na allant fynd i'r afael â nhw (megis darparu gofal iechyd, cyflogaeth neu addysg).

Os na ellir cyflawni canlyniadau personol yr unigolyn, neu na ellir eu cyflawni'n ddigonol, drwy'r gofal a'r cymorth a gydgysylltir ganddo ef ei hun, neu ei deulu neu ei ofalwyr yn unig, bydd gan yr unigolyn angen cymwys.

Bydd y penderfyniad ynghylch cymhwysedd yn llifo'n naturiol o'r broses asesu. Rhaid i'r pum elfen gael eu hystyried yn yr asesiad, ac yna bernir a oes gan yr unigolyn anghenion cymwys. Nid oes unrhyw drothwyon o ran cymhwysedd mwyach. Nid oes a wnelo penderfynu ar gymhwysedd â rhoi hawl i unrhyw un gwasanaeth; mae a wnelo â darparu gofal a chymorth er mwyn cyflawni canlyniadau personol.

Noder bod yn rhaid i'r Set Ddata Graidd Ofynnol Genedlaethol gael ei chwblhau fel rhan o'r asesiad cychwynnol.

Mae'r rheoliadau yn nodi'n benodol anghenion sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer plant. Rhaid nodi a fyddai effaith andwyol ar ddatblygiad y plentyn os na fyddai'r angen yn cael ei ddiwallu. Rhaid i'r broses o asesu anghenion plant ymwneud â chyflawni eu buddiannau pennaf a diogelu eu lles.

Rhan allweddol o'r broses asesu yw nodi a oes rheswm rhesymol dros amau bod oedolyn neu blentyn yn profi cam-drin, esgeulustod neu niwed arall, neu'n wynebu risg o hynny.

**Y ffactorau i'w hystyried ym maes cyfathrebu:** nodweddion anabledd, galluoedd gwybyddol, datblygiad iaith, nam ar y synhwyrau, ysgogiad synhwyraidd, yr amgylchedd, lefelau gorbryder, iaith

Elfennau allweddol asesiad o angen:

Gwnaeth y Ddeddf hi'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud newidiadau sylweddol i'r ffordd maent yn ymateb i unigolion ag anghenion gofal a chymorth a'r gwasanaethau maent yn eu comisiynu. Yn sgil gweithredu'r Ddeddf bu'n rhaid newid ymarfer asesu, o nodi'r gwasanaethau sydd eu hangen ar unigolyn i bwyslais ar y gofal a'r cymorth sydd eu hangen ar yr unigolyn er mwyn cyflawni'r canlyniadau personol sy'n bwysig iddo – canlyniadau a nodir drwy sgwrs barchus am y ffordd y mae'r unigolyn a / neu ei deulu am reoli penderfyniadau ynghylch ei ofal a'i gymorth.

Dylai'r broses asesu fod yn seiliedig ar egwyddorion cydgynhyrchu fel bod ymarferwyr ac unigolion yn rhannu'r pŵer i gydgynllunio. Gallai hyn olygu newid yn y berthynas rhwng gweithwyr proffesiynol a'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau. I weithwyr proffesiynol bydd yn bwysig peidio ag osgoi risg gormod, a galluogi a grymuso unigolion.

Ystyrir bod datblygu dull seiliedig ar gryfderau yn agwedd allweddol ar gydweithio rhwng yr unigolyn a gynorthwyir a'r gweithiwr neu'r gweithwyr proffesiynol sy'n ei gynorthwyo, gan weithio gyda'i gilydd i nodi canlyniadau sy'n manteisio ar gryfderau ac asedau'r unigolyn.

Ni roddir y prif bwyslais ar broblemau na diffygion, ond yn hytrach adeiladu ar adnoddau ac asedau pobl, gan gynnwys cryfderau, galluoedd a theuluoedd neu gymunedau'r bobl. Efallai y bydd ymarferwyr am ddefnyddio'r rhestr ganlynol er mwyn ystyried eu hymarfer eu hunain:

- Canolbwyntio ar ganlyniadau: elfen ganolog dull seiliedig ar gryfderau yw'r graddau y mae pobl eu hunain yn nodi'r canlyniadau yr hoffent eu cyflawni yn eu bywydau (i'r rhai â chyfrifoldeb rhiant dros blant o dan 16 oed, y canlyniadau yr hoffent eu gweld i'w plentyn) ac yna bydd ymarferwyr yn gweithio gyda nhw i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir.
- Y gallu i ddeall a datblygu ymatebion y gymuned i'r angen i ofalu am unigolion a'u cynorthwyo, yn hytrach nag asesu gwasanaethau.

- Lleihau'r ddibyniaeth ar ddulliau rhagnodol ffurfiol a phwysleisio ymhellach y defnydd o farn broffesiynol. Dylai gweithwyr proffesiynol symud tuag at rymuso, gan gadw lles a/neu lesiant yr unigolyn mewn cof drwy'r amser.
- Cynnal asesiadau sy'n gymesur â difrifoldeb yr angen am ofal a chymorth a chymhlethdod y sefyllfa.

**Adnodd asesu a chymhwysedd cenedlaethol**
Rhaid i asesiadau, fan leiaf, gofnodi gwybodaeth yn unol â'r adnodd asesu a chymhwysedd cenedlaethol, sy'n cynnwys y set ddata graidd ofynnol genedlaethol a dadansoddiad yn seiliedig ar y pum elfen asesu:

- asesu ac ystyried amgylchiadau'r unigolyn;
- ystyried ei ganlyniadau personol;
- asesu ac ystyried unrhyw rwystrau i gyflawni'r canlyniadau hynny;
- asesu ac ystyried unrhyw risgiau i'r unigolyn os na chyflawnir y canlyniadau; a
- asesu ac ystyried cryfderau a galluoedd yr unigolyn.

Mae'r broses asesu yn gofyn i ymarferwyr gynnal trafodaethau â phobl er mwyn nodi beth sy'n bwysig iddynt a'r canlyniadau personol maent am eu cyflawni (ac yn achos plant, y canlyniadau mae unrhyw un â chyfrifoldeb rhiant drostynt am eu cyflawni ar ran y plentyn), a pha gyfraniad y gall yr unigolyn a'i deulu neu'r gymuned ehangach ei wneud i gyflawni'r canlyniadau hynny.

Dylai asesiadau effeithiol fod yn brofiadau gwerthfawr ynddynt eu hunain. Dylent feithrin gwell dealltwriaeth o sefyllfa rhywun, nodi'r dull mwyaf priodol, a chreu cynllun sy'n nodi sut y bydd yn cyflawni ei ganlyniadau personol.

**Cynllun personol** – cynllun personol sy'n nodi sut y caiff anghenion gofal a chymorth eu diwallu. Dylai unigolion fod ynghlwm wrth baratoi eu cynllun gofal a chymorth eu hunain cymaint â phosibl. Gellir hefyd gyfeirio at y cynllun personol fel y cynllun darparu gwasanaethau.

**Egwyddorion cynlluniau gofal a chymorth, y fformat a'r gofynion o ran eu cynnwys:**
Rhaid dilyn prif ddyletswyddau'r Ddeddf wrth ddatblygu cynlluniau, a ddylai fod yn berson-ganolog, hyrwyddo llesiant a bod yn seiliedig ar ganlyniadau. Mae hefyd yn bwysig eu bod yn glir ac yn gryno, yn defnyddio iaith a dulliau cyfathrebu priodol, ac mewn fformat hygyrch fel bod modd i'r unigolyn helpu i gynllunio ei gynllun a'i ddeall.

Mae diogelu yn thema drwy gydol y Ddeddf a bydd angen i bob ymarferydd fod yn effro i unrhyw risg o niwed i'r unigolyn neu i eraill. Bydd gwaith cynllunio gofal a chymorth yn archwilio'r ymatebion posibl i'r risgiau hyn ac yn cytuno ar ddulliau o reoli a/neu liniaru risg.

Hefyd, rhaid i gynlluniau gael eu hintegreiddio lle y bo modd (a'i bod yn briodol gwneud hynny), a rhaid sicrhau bod ymarferwyr yn eu cydberchenogi a'u gweithredu. Er enghraifft, eu hintegreiddio ar draws iechyd a gofal cymdeithasol neu ofal cymdeithasol ac addysg.

Rhaid i'r awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd lleol (BILl) ac Ymddiriedolaethau'r GIG gytuno ar fformat y cynllun cymorth a rhaid iddo fod yn gyson o leiaf ar draws yr ôl-troed BILl rhanbarthol. Rhaid iddynt gydweithio i sicrhau bod templedi lleol ac arbenigol cynlluniau cymorth yn bodloni'r set ddata graidd ofynnol genedlaethol a'r cynnwys sy'n ofynnol.

Rhaid i waith cynllunio adlewyrchu strategaeth 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru, sy'n golygu bod yn rhaid i awdurdodau lleol fod yn rhagweithiol a galluogi pobl i gyfathrebu a chyfranogi drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dylai'r cynllun gynnwys y canlynol o leiaf:

- canlyniadau personol a nodwyd gan yr unigolyn, a'r camau i'w cymryd er mwyn helpu'r awdurdod lleol ac eraill i'w cyflawni
- yr angen neu'r anghenion gofal a chymorth a ddiwellir
- y trefniadau adolygu a sut y caiff cynnydd ei fesur

Lle y bo'n briodol dylai cynlluniau hefyd nodi:

- rolau a chyfrifoldebau'r unigolyn, gofalwyr ac aelodau o'r teulu
- yr adnoddau (gan gynnwys adnoddau ariannol) sydd eu hangen gan bawb dan sylw
- unrhyw daliadau uniongyrchol sy'n cyfrif am eich holl gynllun neu ran ohono

**Gofynion darparu ac adolygu cynlluniau gofal a chymorth:**

Rhaid i awdurdodau lleol ddarparu cynlluniau gofal a chymorth ar gyfer plant ac oedolion, a chynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr, sydd ag anghenion sy'n bodloni meini prawf cymhwysedd, a pharhau i'w hadolygu.

Mae'r ddyletswydd hon hefyd yn gymwys i bobl lle yr ymddengys i'r awdurdod lleol fod angen gwneud hyn er mwyn diwallu eu hanghenion a'u hamddiffyn rhag camdriniaeth neu esgeulustod, neu niwed arall (i blant), neu'r risg o hynny.

Gellir diwallu anghenion gofal a chymorth llawer o unigolion heb fod angen cynllun ffurfiol. Mewn achosion o'r fath dylid gwneud yr unigolyn neu ei deulu yn ymwybodol o wasanaethau ataliol neu gymunedol perthnasol. Rhaid cofnodi'r ffordd y caiff yr anghenion hyn eu diwallu heb gynllun ar yr Adnodd Asesu a Chymhwysedd Cenedlaethol.

Fodd bynnag, bydd angen cynllun lle nad yw'n debygol y bydd yr unigolion yn cyflawni ei ganlyniadau personol oni fydd yr awdurdod lleol yn darparu neu'n trefnu gofal a chymorth i ddiwallu angen cymwys a nodwyd.

Rhaid i'r awdurdod lleol gynnwys yr unigolyn a darparu'r cynllun ar y cyd a, lle y bo'n ymarferol, unrhyw ofalwr. Dylai'r cynllun nodi'r ffyrdd y gall yr unigolyn gael cefnogaeth i gyflawni ei ganlyniadau personol; y mathau o ofal a chymorth a allai fod fwyaf addas ac ar gael iddo; a sut y gellir cael mynediad i hyn.

Rhaid adolygu'r cynllun yn barhaus. Os bydd yr awdurdod o'r farn bod angen cymwys unigolyn am ofal a chymorth wedi newid, rhaid iddo gynnal asesiad a diwygio'r cynllun yn ôl y gofyn.

Cyflwynodd y Ddeddf gludadwyedd cynlluniau cymorth i oedolion a phlant ar draws ffiniau awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae hyn yn golygu os bydd rhywun ag anghenion cymwys yn symud yng Nghymru, mae gan yr awdurdod 'newydd' ddyletswydd i gynnal y gofal a'r cymorth a nodwyd yn ei gynllun blaenorol, o leiaf hyd nes y caiff gyfle i adolygu ei anghenion.

**Rôl eraill yn y broses asesu:** gallai eraill gynnwys:

- Swyddog Adolygu Annibynnol
- Rhiant Corfforaethol
- Gofalwyr maeth

- Personau cysylltiedig
- Gweithwyr iechyd proffesiynol
- Cymorth tai
- Darparwyr gwasanaeth – y sector statudol, y sector annibynnol a'r trydydd sector
- Eiriolwyr
- Gweithwyr cymdeithasol

**Yr ystad ddiogel:**
Cyflwynodd y Ddeddf ddyletswydd newydd i awdurdodau lleol o ran oedolion ag anghenion gofal a chymorth sy'n rhan o'r ystad ddiogel yng Nghymru, ac ehangodd y ddyletswydd ar awdurdod lleol i ymweld â phlentyn sy'n derbyn gofal, neu a arferai dderbyn gofal, i bob plentyn yn yr ystad ddiogel, a newidiodd y ffordd y caiff cyfrifoldebau presennol am ofal a chymorth plant yn yr ystad ddiogel (boed yng Nghymru neu Loegr) eu cyflawni.

Yr awdurdod lleol lle lleolir y ddarpariaeth sy'n gyfrifol am ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolyn, ni waeth ble mae'n byw fel arfer cyn ei gadw. Roedd hyn yn newid mawr i awdurdodau lleol o ran carchardai ac mae ganddynt yr un dyletswyddau i'w cyflawni o ran asesu a diwallu anghenion cymorth oedolion yn yr ystad ddiogel â'u dinasyddion yn y gymuned h.y. y gofynion a amlinellir yn y sleidiau blaenorol. Mae angen iddynt weithredu mewn ffordd gyfannol pan fydd unigolion yn bwrw eu dedfryd ac wrth gynllunio i'w rhyddhau.

Bydd y cyfrifoldeb am anghenion cymorth plentyn o Gymru ar ei awdurdod lleol cartref yng Nghymru, hynny yw, yr awdurdod lleol lle roedd y plentyn yn byw fel arfer cyn ei gadw. Os na fydd gan y plentyn statws preswyliaeth gyffredin, yna bydd y cyfrifoldeb am ei anghenion cymorth ar yr awdurdod lleol lle cedwir y plentyn, boed hynny yng Nghymru neu Loegr.

**Lle y gall asesiad integredig/arbenigol fod yn ofynnol:**
Rhan allweddol o'r broses asesu yw nodi a oes rheswm rhesymol dros amau bod oedolyn neu blentyn yn profi cam-drin, esgeulustod neu fathau eraill o niwed, neu'n wynebu risg o hynny, ac na all amddiffyn ei hun (o ran oedolion) ac a oes angen cymryd unrhyw gamau brys er mwyn diogelu'r person.

Dylai'r ymarferydd gynnal asesiad sy'n gymesur â'r amgylchiadau, ond dylai ystyried y pum elfen asesu sy'n fodd i wneud penderfyniad o ran cymhwysedd. Gall asesiad ddod i'r casgliad bod angen asesiad mwy cynhwysfawr neu arbenigol, gan gynnwys gwaith partneriaeth gydag un neu fwy o asiantaethau neu asesiadau proffesiynol. Dylai'r rhain i gyd fwydo i mewn i un asesiad integredig ac un broses asesu.
Dylai asesiad nodi a allai darparu cyngor a gwybodaeth, neu gyfeirio at wasanaethau ataliol neu wasanaethau eraill, gyfrannu at gyflawni canlyniadau personol yr unigolyn neu, fel arall, ddiwallu ei anghenion gofal a chymorth, ac os felly, i ba raddau.

Bydd y penderfyniad ynghylch cymhwysedd yn llifo'n naturiol o'r broses asesu. Rhaid i'r pum elfen gael eu hystyried yn yr asesiad, ac yna bernir a oes gan yr unigolyn anghenion cymwys. Os mai dim ond drwy gynllun gofal a chymorth neu gynllun cymorth y gellir diwallu'r angen neu'r anghenion a nodwyd, bydd yr angen yn gymwys.

## *Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig*

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Canllawiau Gofal Iechyd Parhaus

- Blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer gofalwyr
- Deddf GIG (Cymru) 2006
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005.
- Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn)
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989)
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl (2006)
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwysedd) (Cymru) 2015

### *Adnoddau*

- **https://gofalcymdeithasol.cymru/hub/hub-resource-sub-categories/asesu-a-diwallu-anghenion**
- Gweithio gyda gofalwyr: **https://gofalcymdeithasol.cymru/hub/hub-resource-sub-categories/gofalwyr-ar-ddeddf**
- Adnoddau ar gynorthwyo gofalwyr: **https://www.scie.org.uk/prevention/**

# Uned 445 Diogelu unigolion

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 4 |
| **ODA:** | 42 |
| **Credyd:** | 18 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i hyrwyddo'r gwaith o ddiogelu plant a phobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg. |

## Deilliant dysgu:

1. Meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r gwaith o ddiogelu plant a phobl ifanc

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Gofynion deddfwriaethol, rheoliadol a sefydliadol, a safonau cenedlaethol diogelu plant a phobl ifanc a sut mae'r rhain yn ymwneud â rôl Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol

1.2 Sut mae ymholiadau ac adolygiadau
- wedi dylanwadu ar fframweithiau a safonau deddfwriaethol
- ac yn cael eu defnyddio i lywio ymarfer

1.3 Ystyr y termau:
- 'plentyn mewn perygl'
- 'niwed sylweddol'

1.4 Sut i wybod pryd yr ystyrir bod niwed yn 'sylweddol'

1.5 Effaith bosibl cam-drin, esgeuluso a niwed ar blant a phobl ifanc

1.6 Arwyddion a symptomau a all ddynodi bod plentyn neu berson ifanc wedi cael ei niweidio neu ei gam-drin, neu ei fod yn wynebu risg o hynny

1.7 Gofynion lle mae pryderon bod plentyn neu berson ifanc wedi cael ei niweidio neu ei gam-drin, neu ei fod yn wynebu risg o hynny, gan gynnwys dyletswyddau statudol i roi gwybod

1.8 **Ystyriaethau allweddol** o ran plentyn neu berson ifanc sy'n wynebu risg

1.9 Rhwystrau a all olygu na leisir pryderon am gam-drin, esgeuluso neu niwed

1.10 Rôl gwahanol asiantaethau, gan gynnwys eiriolaeth, o ran diogelu plant a phobl ifanc

1.11 Effaith bosibl cael amrywiaeth o asiantaethau a gweithwyr proffesiynol gwahanol yn rhan o'u bywydau ar blant a phobl ifanc os nodwyd eu bod yn 'wynebu risg'

1.12 Diben a rôl **byrddau diogelu** i blant a phobl ifanc sy'n wynebu risg

1.13 Pam a phryd y byddai ymholiad Adran 47 yn dechrau

1.14 Proses ymholiad Adran 47 a rolau a chyfrifoldebau'r rheini dan sylw

1.15 Pwysigrwydd cymryd camau cydgynhyrchiol gyda phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd/gofalwyr/eraill drwy gydol y broses ddiogelu

1.16 Ystyriaethau, gan gynnwys ffactorau risg, sy'n ofynnol wrth ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd/gofalwyr/eraill drwy gydol y broses ddiogelu
1.17 Yr egwyddorion sy'n arwain at system ddiogelu effeithiol i blant a phobl ifanc

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
1.18 Cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol, rheoliadol a sefydliadol a safonau cenedlaethol ar gyfer diogelu plant a phobl ifanc yn unol â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau eich hun
1.19 Sicrhau bod gwybodaeth a dealltwriaeth yn cael eu diweddaru'n rheolaidd mewn perthynas â thueddiadau diogelu newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg

## Amrediad

**Ystyriaethau allweddol:** dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, galluedd meddyliol, eiriolaeth
**Byrddau diogelu:** Cenedlaethol a rhanbarthol

---

## Deilliant dysgu:

2. Meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o faes diogelu oedolion sy'n wynebu risg

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:
2

2.1 Gofynion deddfwriaethol, rheoliadol a sefydliadol, a safonau cenedlaethol diogelu oedolion sy'n wynebu risg a sut mae'r rhain yn ymwneud â rôl Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol
2.2 Sut mae ymholiadau ac adolygiadau
- wedi dylanwadu ar fframweithiau a safonau deddfwriaethol
- ac yn cael eu defnyddio i lywio ymarfer

2.3 Ystyr y term 'oedolyn sy'n wynebu risg'
2.4 Effaith bosibl cam-drin, esgeuluso a niwed ar unigolion
2.5 Arwyddion a symptomau a all ddynodi bod unigolyn wedi cael ei niweidio neu ei gam-drin, neu ei fod yn wynebu risg o hynny
2.6 Gofynion lle mae pryderon bod oedolyn sy'n wynebu risg wedi cael ei niweidio neu ei gam-drin, neu ei fod yn wynebu risg o hynny, gan gynnwys dyletswyddau statudol i roi gwybod
2.7 Rhwystrau a all olygu na leisir pryderon am gam-drin, esgeuluso neu niwed
2.8 Rôl gwahanol asiantaethau, gan gynnwys eiriolaeth, o ran diogelu oedolion sy'n wynebu risg
2.9 Diben a rôl **byrddau diogelu** i ddiogelu oedolion sy'n wynebu risg
2.10 Pam a phryd y byddai ymholiad Adran 126 yn dechrau
2.11 Proses ymholiad Adran 126 a rolau a chyfrifoldebau'r rhai dan sylw
2.12 **Ystyriaethau allweddol** wrth gynnal ymholiad Adran 126
2.13 Pwysigrwydd cymryd camau cydgynhyrchiol gydag oedolion a'u teuluoedd/gofalwyr drwy gydol y broses ddiogelu
2.14 Ystyriaethau, gan gynnwys ffactorau risg, sy'n ofynnol wrth ymgysylltu ag oedolion sy'n wynebu risg a'u teuluoedd/gofalwyr/eraill drwy gydol y broses ddiogelu
2.15 Pwysigrwydd cymryd camau cydgynhyrchiol gydag oedolion sy'n wynebu risg a'u teuluoedd/gofalwyr drwy gydol y broses ddiogelu

2.16 Yr egwyddorion sy'n arwain at system ddiogelu effeithiol i oedolion sy'n wynebu risg

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n

2.17 Cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol, rheoliadol a sefydliadol a safonau cenedlaethol ar gyfer diogelu oedolion sy'n wynebu risg yn unol â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau eich hun

2.18 Sicrhau bod gwybodaeth a dealltwriaeth yn cael eu diweddaru'n rheolaidd mewn perthynas â thueddiadau diogelu newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg

### Amrediad

**Ystyriaethau allweddol:** dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, ymholiadau person-ganolog, galluedd meddyliol, eiriolaeth, cydsyniad
**Byrddau diogelu:** Cenedlaethol a rhanbarthol

---

### Deilliant dysgu:

3. Cymryd camau sy'n diogelu plant a phobl ifanc a/neu oedolion sy'n wynebu risg

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

3

3.1 Cysylltiadau rhwng ymarfer person/plentyn-ganolog a diogelu plant a phobl ifanc a/neu oedolion

3.2 Pwysigrwydd cynnwys diogelu fel rhan o weithdrefn gymorth gyfannol ac unigol er mwyn sicrhau llesiant

3.3 Sut i gefnogi'r gwaith o ddatblygu diwylliant ac amgylchedd sy'n:
- hyrwyddo ymarfer person/plentyn-ganolog wrth ddiogelu plant a phobl ifanc a/neu oedolion sy'n wynebu risg
- cefnogi perthnasoedd cadarnhaol â phlant a phobl ifanc a/neu oedolion sy'n wynebu risg
- galluogi plant a phobl ifanc a/neu oedolion sy'n wynebu risg a'u teuluoedd/gofalwyr i fynegi eu hofnau, gorbryderon, teimladau a phryderon heb fod ofn gwatwar, cael eu gwrthod na dial

3.4 Yr hyn sydd angen ei ystyried wrth ymateb i achosion o ddatgelu cam-drin, esgeuluso neu niwed, neu honiadau o hynny

3.5 Pwysigrwydd ymyrryd yn gynnar ac atal a'r camau y dylid eu cymryd pan fo pryderon yn dod i'r amlwg am gam-drin a/neu esgeuluso a niwed

3.6 Y mathau o ymyriadau a all gael eu gwneud, sut y dylai'r rhain gael eu hystyried a phwy ddylai gael eu cynnwys

3.7 Pwysigrwydd cydlunio ymyriadau â phlant a phobl ifanc a/neu oedolion sy'n wynebu risg, eu teuluoedd/gofalwyr wrth ystyried unrhyw ffactorau risg

3.8 Yr hyn sydd angen ei ystyried wrth rannu canlyniadau o ymholiadau diogelu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.9 Helpu plant a phobl ifanc a/neu oedolion sy'n wynebu risg a'u teuluoedd/gofalwyr i nodi ffactorau, sefyllfaoedd a gweithredoedd a all achosi niwed a chamdriniaeth, neu arwain at hynny

3.10 Helpu plant a phobl ifanc a/neu oedolion sy'n wynebu risg i nodi beth sydd angen ei ddarparu er mwyn osgoi sefyllfaoedd a all arwain at niwed neu gamdriniaeth

3.11 Helpu plant a phobl ifanc a/neu oedolion sy'n wynebu risg ac eraill i gytuno ar weithdrefnau i'w dilyn os bydd sefyllfaoedd, digwyddiadau neu ymddygiad a allai beri niwed neu gam-drin

3.12 Cymryd camau cydluniol er mwyn cytuno ar ffiniau teg, diogel, cyson a dealladwy gyda phlant a phobl ifanc a/neu oedolion sy'n wynebu risg i'w cadw'n ddiogel

3.13 Helpu plant a phobl ifanc a/neu oedolion sy'n wynebu risg i adnabod achosion lle na fydd yr ymddygiad tuag atyn nhw neu eraill yn briodol nac yn dderbyniol

3.14 Sicrhau bod camau yn cael eu cymryd ar unwaith os bydd arwyddion neu symptomau o niwed neu gam-drin neu lle y datgelwyd neu yr honnwyd hyn

3.15 Herio ymddygiad neu weithredoedd a all arwain at niwed neu gamdriniaeth

3.16 Sicrhau bod cofnodion ac adroddiadau yn bodloni **gofynion deddfwriaethol a sefydliadol**

3.17 Dilyn gweithdrefnau cytûn er mwyn trosglwyddo adroddiadau a gwybodaeth am achosion o niwed neu gam-drin a amheuir neu a ddatgelir mewn cytundebau cyfrinachedd

3.18 Sicrhau bod prosesau cyfathrebu yn cydnabod cyfrinachedd o fewn ffiniau diogelu

3.19 Defnyddio prosesau goruchwylio a chymorth er mwyn ystyried effaith niwed neu gam-drin a amheuir neu a ddatgelir arnoch chi'ch hun ac eraill

3.20 Myfyrio ar eich ymddygiad eich hun yn barhaus er mwyn sicrhau nad yw'n cyfrannu at sefyllfaoedd, camau gweithredu nac ymddygiad a all fod yn niweidiol neu'n gamdriniol

3.21 Cael cymorth ychwanegol gyda sefyllfaoedd sydd y tu hwnt i'ch arbenigedd, rôl a'ch cyfrifoldeb eich hun

### Amrediad

**Gofynion deddfwriaethol a sefydliadol:** maent yn fanwl, yn gywir, wedi'u hamseru, eu dyddio a'u llofnodi, yn glynu wrth gytundebau cyfrinachedd, yn osgoi'r defnydd o ddatganiadau a allai gael effaith andwyol ar y defnydd o dystiolaeth mewn ymchwiliadau yn y dyfodol ac yn y llys

# Uned 445 Diogelu unigolion

Gwybodaeth Ategol

### *Canllawiau cyflwyno*

Bydd yr adnoddau canlynol yn arbennig o bwysig wrth gyflwyno'r uned hon:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Deunyddiau hyfforddi ar ddiogelu **https://gofalcymdeithasol.cymru/hub/hub-resource-sub-categories/diogelu**
- Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019) **http://www.myguideapps.com/projects/wales_safeguarding_procedures/default**
- Canllawiau Diogelu Llywodraeth Cymru https://llyw.cymru/canllawiau-diogelu

**Byddai gofynion deddfwriaethol a rheoliadol a safonau cenedlaethol ar gyfer diogelu yn cynnwys:**

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Chodau Ymarfer cysylltiedig
- Canllawiau Diogelu Cymru Gyfan **https://llyw.cymru/canllawiau-diogelu**
- Chwythu'r Chwiban
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989
- Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn
- Deddf Plant (1989 a 2004)
- gweithio gyda'n gilydd dan Ddeddf Plant 2004
- Deddf Diogelu Data 1998
- Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) 2018
- WASPI (Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru) – **http://www.waspi.org/hafan**
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Y Ddeddf Iechyd Meddwl (1983) diwygiwyd 2007
- Deddf Iechyd Meddwl Cod Ymarfer Cymru (2016)
- Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (2010)
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a Chod Ymarfer cysylltiedig
- Mesurau Diogelu Rhyddid (LiPS)
- Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006
- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

Ar Gov.UK (felly ddim yn ddwyieithog)

- Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 https://www.gov.uk/government/publications/protection-of-freedoms-bill

**Eraill (ar gyfer y broses ddiogelu):** gallent gynnwys:

- Gofalwyr maeth
- Gofal gan berthnasau
- Personau cysylltiedig
- Gweithwyr gofal a chymorth

Yr **egwyddorion** sy'n arwain at system ddiogelu effeithiol i blant:

Egwyddor 1: Dymuniadau, anghenion a llesiant y plentyn sy'n dod gyntaf, fel ei fod yn derbyn y gofal a'r cymorth sydd eu hangen cyn i broblem waethygu.

Egwyddor 2: Mae pob ymarferwr sy'n dod i gysylltiad â phlant yn effro i'w hanghenion gan gynnwys unrhyw achos posibl neu a amheuir o gam-drin neu risg o gam-drin neu niwed, ac mae'n deall beth y dylid ei wneud.

Egwyddor 3: Mae pob ymarferwr yn rhannu gwybodaeth briodol a gall gael cyngor uniongyrchol er mwyn trafod unrhyw bryderon am blentyn.

Egwyddor 4: Gall pob ymarferwr arddel barn broffesiynol er mwyn sicrhau bod anghenion a chanlyniadau personol y plentyn wrth wraidd y system fel bod modd dod o hyd i'r ateb cywir iddo.

Egwyddor 5: Mae pob ymarferwr sy'n gweithio gyda phlentyn yn gweithredu mewn ffordd amlasiantaeth a chydweithredol er mwyn diogelu a hyrwyddo llesiant plentyn, cofnodi penderfyniadau'n briodol ac adolygu'n rheolaidd gynnydd yn erbyn y canlyniadau a nodir mewn cynlluniau gofal a chymorth.

Egwyddor 6: Gall pob ymarferwr sy'n dod i gysylltiad â phlant gael arweinyddiaeth strategol broffesiynol sy'n helpu'r ymarferwr i gyflawni'r canlyniadau dymunol i'r plentyn.

Yr **egwyddorion** sy'n arwain at system ddiogelu effeithiol i oedolion sy'n wynebu risg:

**Egwyddor 1:** Mae canlyniadau personol yr unigolyn yn hysbys a gall eu cyfleu'n effeithiol;

**Egwyddor 2:** Caiff anghenion yr unigolyn eu rhoi'n gyntaf, fel bod yr oedolyn yn derbyn y gofal a'r cymorth sydd eu hangen cyn i broblem waethygu.

**Egwyddor 3:** Mae pob gweithiwr proffesiynol sy'n dod i gysylltiad ag oedolion sy'n wynebu risg wedi'i hyfforddi ac yn effro i'w hanghenion gan gynnwys unrhyw achos posibl neu a amheuir o gam-drin neu risg o gam-drin neu **esgeuluso**.

**Egwyddor 4:** Mae pob gweithiwr proffesiynol yn rhannu gwybodaeth briodol mewn ffordd amserol, a gall gael cyngor uniongyrchol er mwyn trafod unrhyw bryderon am blentyn.

**Egwyddor 5:** Gall pob gweithiwr proffesiynol ddefnyddio ei farn arbenigol er mwyn sicrhau bod anghenion a chanlyniadau personol yr unigolyn wrth wraidd y system fel bod modd dod o hyd i'r ateb cywir iddo.

**Egwyddor 6:** Mae pob gweithiwr proffesiynol yn gweithredu mewn ffordd amlasiantaeth a chydweithredol er mwyn diogelu a hyrwyddo llesiant oedolyn sy'n wynebu risg ac adolygu'n rheolaidd gynnydd yn erbyn y canlyniadau a nodir mewn cynlluniau gofal a chymorth.

**Mathau o ymyriadau:** caiff y rhain eu cynnwys yn y ddogfen Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan (2019)
**http://www.myguideapps.com/projects/wales_safeguarding_procedures/default/**

Mae **Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan (2019)** yn rhoi canllawiau i ymarferwyr sydd ynghlwm wrth ddiogelu ar y ffordd y caiff pethau eu gwneud. Mae'r gweithdrefnau yn adeiladu ar ganllawiau statudol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, rhan 7 Diogelu ac yn benodol Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl cyfrolau 1, 4, 5 a 6.

Mae'r Gweithdrefnau wedi'u hysgrifennu i ddarparu canllawiau a disgwyliadau clir o ran diogelu oedolion a phlant. Maent yn anelu at helpu unrhyw un sy'n gweithio gydag oedolion neu blant (drwy waith â thâl neu waith di-dâl) er mwyn cymhwyso deddfwriaeth a chanllawiau statudol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 at eu rolau a'u dyletswyddau drwy egluro eu cyfrifoldebau a sut i'w cyflawni. Mae'r ffaith bod diogelu yn fater i bawb yn cael ei nodi'n glir yn y Gweithdrefnau sydd hefyd yn egluro'r hyn sy'n ofynnol gan bobl mewn rolau penodol. Mae'r Gweithdrefnau yn defnyddio iaith a thermau cyson.

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn sicrhau bod ymarfer diogelu yn adlewyrchu'n gywir ganllawiau statudol ac maent wedi'u safoni ar draws pob asiantaeth a ledled Cymru. Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn disodli Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 a Pholisi a Gweithdrefnau Interim Cymru ar gyfer Amddiffyn Oedolion Hawdd eu Niweidio rhag cael eu Cam-drin (diweddarwyd 2013)

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn cynnwys:
2 adran i gwmpasu'r ystod oedran oes gyfan:
- Gweithdrefnau sy'n benodol i blant
- Gweithdrefnau sy'n benodol i oedolion sy'n wynebu risg

Ac 1 adran am weithwyr:
- Gweithdrefnau sy'n ymwneud â honiadau yn erbyn ymarferwyr

Mae'r adrannau yn rhoi canllawiau clir ar:
- Egwyddorion diogelu
- Ymyrryd yn gynnar a help
- Dyletswydd adrodd
- Ymholiad Cychwynnol ac Ymateb i Adroddiad, gan gynnwys amserlenni
- Gwneud Penderfyniadau
- Cynllunio ac Ymyrryd
- Gweithio ar draws ffiniau

A hefyd:
- Cyngor ymarferol ar weithio gyda phlant
- Cyngor ymarferol ar weithio gydag oedolion sy'n wynebu risg
- Set o ganllawiau ymarfer ar ddiogelu plant mewn amgylchiadau penodol

## *SGC cysylltiedig*

SCDHSC 0431 Cefnogi unigolion sydd wedi profi niwed a chamdriniaeth

## *Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig*

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Chodau Ymarfer cysylltiedig
- Canllawiau Diogelu Cymru Gyfan **https://llyw.cymru/canllawiau-diogelu**
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989
- Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn
- Deddf Plant (1989 a 2004)
- gweithio gyda'n gilydd dan Ddeddf Plant 2004
- Deddf Diogelu Data 1998
- Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) 2018
- WASPI (Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru) – **http://www.waspi.org/hafan**

- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Y Ddeddf Iechyd Meddwl (1983) diwygiwyd 2007
- Deddf Iechyd Meddwl Cod Ymarfer Cymru (2016)
- Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (2010)
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a Chod Ymarfer cysylltiedig
- Mesurau Diogelu Rhyddid (LiPS)
- Deddf Cydraddoldeb (2010
- Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

Ar Gov.UK (felly ddim yn ddwyieithog)

- Deddf Diogelu Rhyddidau 2012
https://www.gov.uk/government/publications/protection-of-freedoms-bill

### *Adnoddau*

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Deunyddiau hyfforddi ar ddiogelu **https://gofalcymdeithasol.cymru/hub/hub-resource-sub-categories/diogelu**
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant rhan 7 diogelu
https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/arweiniad-statudol
- Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019)
**http://www.myguideapps.com/projects/wales_safeguarding_procedures/default**
- Canllawiau Diogelu Llywodraeth Cymru https://llyw.cymru/canllawiau-diogelu
- Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan ar gyfer diogelu plant a phobl ifanc
http://www.myguideapps.com/projects/wales_safeguarding_procedures/cymraeg/chi/index.c6.html?nocache=0.5229602397989326
- Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus – diogelu
https://www.gov.uk/government/publications/safeguarding-strategy-2019-to-2025-office-of-the-public-guardian
- Sefydliadau elusennol – diogelu
https://www.gov.uk/government/publications/strategy-for-dealing-with-safeguarding-issues-in-charities
https://www.gov.uk/guidance/charities-how-to-protect-vulnerable-groups-including-children
- Gwiriadau DBS https://www.gov.uk/government/organisations/disclosure-and-barring-service
- Cymhwysedd https://www.gov.uk/government/collections/dbs-eligibility-guidance
- Atgyfeiriadau DBS https://www.gov.uk/guidance/making-barring-referrals-to-the-dbs
- Byw Heb Ofn https://livefearfree.gov.wales/?lang=en /
https://livefearfree.gov.wales/?skip=1&lang=cy
- Caethwasiaeth Fodern https://www.north-wales.police.uk/advice-and-support/stay-safe/modern-slavery?lang=cy-gb
- Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol - adolygiadau arfer
http://bwrdddiogelu.cymru/practice-reviews/?noredirect=cy_GB/
- Dyletswyddau PREVENT
- Cod Ymarfer Proffesiynol a Chanllawiau Ymarfer Gofal Cymdeithasol Cymru

# Atodiad 1 Cysylltiad â chymwysterau eraill

## Cysylltiadau â chymwysterau eraill

Mae cysylltiadau rhwng y cymhwyster hwn a'r cymwysterau canlynol:

- Lefel 1/2 Cyflwyniad i Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant
- Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd
- Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)
- Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Plant a Phobl Ifanc)
- Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Lefel 4 Paratoi i Arwain a Rheoli yn y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Lefel 5 Arwain a Rheoli mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol